# CLEBRAN

**PAPUR BRO'R PRESELI**

Aneurin

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr!

Rhif 505 | Sefydlwyd Rhagfyr 1974 | Rhagfyr 2020 | £1.00


## Don Ya Ya yn recordio mewn cwtsh dan stâr o stafell ym Mhantwraigen



*Owen Powell a'i gitar a'r offer recordio yn yr ystafell bitw*

Wrth recordio gyda'r band Catatonia yn y 90au byddai'n ddim i'r cwmni recordiau wario £1,000 y dydd mewn stiwdio fel Rockfield ym Mynwy. Byddai hynny'n cynnwys bwyd a llety. A gallai paratoi albwm gymryd mwy nag wythnos.

Erbyn heddiw mae cyn-gitarydd y grŵp, Owen Powell, yn medru recordio'r cyfan ar ei liwt ei hun mewn cwtsh dan stâr o stafell ym mwthyn Pantwraigen yn Efail-wen, lle mae yntau a Betsan, sy'n hanu o Landysilio, wedi cartrefu.

**Cerys Mathews**

Arferai'r grŵp a gysylltir â Cerys Mathews deithio'r byd ond ers rhoi'r ffidil yn y to yn 2001 bu'r crwt o Gaerdydd yn canolbwyntio ar gyfansoddi caneuon i eraill. Ac yn benodol i'r gantores Duffy o Ben Llŷn.

Dim ond nawr y mae Owen wedi mentro recordio ei ddeunydd ei hun a hynny nid o dan ei enw ei hun chwaith ond o dan enw Don Ya Ya.

Ac ydyn ni'n debyg o'i weld yn perfformio'n lleol yng Nghlwb Rygbi Crymych neu Tafarn Sinc yn y dyfodol agos?

"Wel, byddai hynny'n anodd. Y fi sy'n chwarae pob offeryn ar y record a bydde rhaid i fi feddwl yn galed sut i fynd ati i gyflwyno'r caneuon yn fyw," meddai.

**Lleuad welw**

Yn y cyfamser ei fwriad yw cyhoeddi cyfres o senglau y mae'n eu disgrifio fel caneuon pop o'r 1960au a'r 1970au. Y nesaf i'w rhyddhau yw cân o'r enw 'Pale Moon'.

"Fy ffrind o Aberystwyth, Hywel Griffiths, a finne sgrifennodd hi, ac mae'n diolch i'r lleuad am ein goleuo mewn cyfnod anodd. Mae'n ein harwain adre'n ddiogel," meddai.

Mae'n rhyfedd pa mor gerddorol greadigol y gellir bod mewn twtsen o stafell yng nghefen gwlad heb holl baraffanalia stiwdio fawr a desg gymysgu ac ati.

## Cyhoeddi cerdd Saesneg yn CLEBRAN


Am y tro cyntaf erioed mae'n debyg cyhoeddir cwlffyn o Saesneg yn y papur hwn. Ni ymddiheurir am wneud hynny. Mae'r gerdd Saesneg 'My Fishing Village' a welir ar dudalen 12 yn adleisio llawer o farddoniaeth Gymraeg gyfoes fel y gerdd 'Bro' o eiddo Wyn Owens. Mae cerdd Philip Stoddart wedi cael cryn sylw ar y cyfryngau cymdeithasol.

A hynny am ei bod yn tynnu sylw at y newid sy'n digwydd yng nghymunedau de Sir Benfro yn gymaint â gogledd y sir o ganlyniad i'r cynnydd mewn prynu tai fel ail-gartrefu. Mae'r rhifynnau diweddar o'r papur bro hwn wedi bod yn gwyntyllu effaith hynny ar gymdogaethau brodorol ac ar yr iaith Gymraeg.

Bwriedir parhau i wneud hynny yng nghyd-destun y galw cynyddol am ateb gwleidyddol i'r bygythiad. Bu un o swyddogion CLEBRAN yn annerch rali 'Nid yw Cymru ar werth' a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar.

Bwriada Cris Tomos barhau â'r mater yn rhinwedd ei swydd fel deilydd portffolio ar gabinet Cyngor Sir Penfro. Mae'r mater yn destun sgwrs cyson bellach. Dyletswydd CLEBRAN yw adlewyrchu hynny a chynorthwyo i ganfod atebion.


Diogelu 40 o luniau castell Cilgerran (tud 6)



Gwobr i Wendy a'r Cylch Meithrin (tud 8)



Tân y cynfyd ar y Preselau – Shani Las (tud 22)



Bidi yn cofio dyddiau plentyndod ym mhentre Hermon (tud 31)



# CLEBRAN Papur Bro'r Preseli

**Cadeirydd**: Llinos Penfold

**Ysgrifennydd**: Cris Tomos,
Pant yr Ysgol, Hermon, Y Glôg,
Sir Benfro. SA36 0DT.
(01239) 831962 / 07974 099738
E-bost gweinyddol: cristomos831@gmail.com

**Trysorydd**: Dylan Thomas
(01239) 831163
E-bost: dylanthomas191@btinternet.com

**Trefnydd Clebran drwy'r Post**:
Lona Tomos (01239) 831962

**Colofn y Dysgwyr**: Tomos Hopkins
E-bost: TomosD.Hopkins@pembrokeshire.gov.uk

**Colofn 'Pori 'Mysg y Geirie'**:
Rachel James (01239) 841457

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

**Pob cyfraniad i'w dderbyn erbyn yr 20fed o'r mis. Cysylltwch â'r gohebydd lleol neu os yn bosib anfoner yn uniongyrchol yn electroneg at: clebran@mentersirbenfro.com neu golygydd y mis.**

**Cyhoeddwyd CLEBRAN gan y Bwrdd Golygyddol ac fe'i cysodwyd a'i argraffwyd gan Argraffwyr E. L. Jones, Aberteifi.**

**Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yng ngholofnau'r papur.**

**Mae gan CLEBRAN dudalen ffesbwc hefyd. Gosodir darnau o newyddion, ynghyd â lluniau, arno'n gyson rhwng pob rhifyn. Trowch ato.**

**Mae CLEBRAN yn cydio ac yn treiddio i lefydd nad yw papure bro eraill yn eu cyrraedd.**

**Mae'r defnydd o luniau lliw yn rhan naturiol o dudalennau CLEBRAN erbyn hyn. Fydde neb am weld dychwelyd i ddu a gwyn trwyddi draw mae'n siwr.**

**Nodwyd droeon y bydd rhaid codi pris CLEBRAN maes o law ac o fis Ionawr ymlaen bydd ei bris yn codi 20c i £1 20. Daliwch i gefnogi.**

**DALIER SYLW**

**Mae rheolau'r gyfraith ar gyhoeddi lluniau o blant ar bapur neu ar y we wedi'u tynhau. O'r herwydd mae'n bwysig bod pob gohebydd sy'n anfon llun ag enw plentyn i'w gynnwys yn CLEBRAN yn gwneud yn siwr ei fod wedi cael caniatâd rhieni neu ofalwyr y plentyn i wneud hynny. Diolch.**

# GOHEBYDDION LLEOL

| | | |
|---|---|---|
| **Abercych**: Dewina George | (01239) 841229 | george@machineryandspares.co.uk |
| **Blaenffos**: Eileen Thomas | (01239) 841528 | |
| **Boncath**: Nyfed Griffiths | (01239) 841823 | nyfed.griffiths@btinternet.com |
| **Brynberian**: Gillian Lewis | (01239) 891387 | elfedmlewis@btinternet.com |
| **Bwlch-y-groes**: Sharon Harries | (01239) 698605 | arwynharries@btinternet.com |
| **Capel Newydd**: Wendy Lewis | (01239) 841242 | wendy.2lewis19@gmail.com |
| **Cilgerran**: Bethan Phillips | (01239) 614321 | cortinaewp@aol.com |
| **Cilrhedyn**: Meinir James | (01239) 698687 | |
| **Crymych**: Siop Siân | (01239) 831230 | |
| Elizabeth John | (01239) 831640 | elizabethjohn13@hotmail.co.uk |
| **Efail-wen**: Angharad Booth-Taylor | (01994) 419221 | angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| **Eglwyswrw**: Eileen Thomas | (01239) 891372 | |
| Miriel Davies | (01239) 891259 | llysybryn@gmail.com |
| **Ffynnongroes**: Awen Evans | (01239) 891637 | alwyn.evans@btconnect.com |
| **Glandŵr**: Mair Davies | (01994) 419455 | mairdavies@btopenworld.com |
| **Hermon**: Gwenda Mathias | (01239) 831410 | g.mathias46@btinternet.com |
| **Llandudoch**: Llinos Devonald | (01239) 614661 | llinosmdevonald@hotmail.co.uk |
| **Llanfyrnach**: Joyce Williams | (01239) 831254 | |
| **Llangolman**: Angharad Booth-Taylor | (01994) 419221 | angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| **Llwyndrain**: Beryl Vaughan | (01239) 698394 | |
| **Maenclochog**: | | |
| **Mynachlog-ddu**: Wyn Owens | (01994) 419594 | |
| **Rhos-y-bwlch**: Buddug Harries | (01437) 532652 | buddugh@hotmail.com |
| **Rhydwilym**: Eilir Davies | (01994) 419649 | eilirtyrhos@btinternet.com |

**Beth am wirfoddoli i fod yn ohebydd Clebran yn eich ardal?**

## Golygydd mis Ionawr:
## HEFIN WYN

hefinwyn367@btinternet.com
clebran@mentersirbenfro.com

## Clwb Clebran ar ei newydd wedd

Yng nghyfarfod blynyddol CLEBRAN penderfynwyd lansio CLWB CLEBRAN ar ei newydd wedd. Cronfa Asedion Cymunedol fydd yn casglu'r arian yn fisol a talu gwobrau misol. O gael 100 o aelodau'n nodi Clebran fel y mudiad lleol i'w gefnogi yna bydd CLEBRAN yn derbyn £3,000 y flwyddyn o'r gronfa sef hanner y swm a gyfrennir gan bawb ar sail £5 y mis. Bydd gwobr yn cael ei hennill bob mis. Felly, er mwyn cynnal CLEBRAN dros yr hir dymor ymunwch er mwyn codi'r wobr fisol i £200. Ar y dudalen gyferbyn fe welwch y daflen wybodaeth ac mae ffurflen archeb banc wedi'i chynnwys hefyd. Mae modd talu drwy archeb am y flwyddyn gyfan sef £60. Mae mwy o wybodaeth am y cynllun ar www.asedion.cymru. Helpwch ni i dorchi llewys i ddatblygu'r papur bro.

CRONFA ASEDION CYMUNEDOL · COMMUNITY ASSET FUND

## SUT MAE'N GWEITHIO?

O'ch cyfraniad o £ 5 y mis

**50%** CLEBRAN PAPUR BRO'R PRESELI

**35%** Yn cael ei roi yn y pot gwobr ar gyfer y dynfa loteri

**15%** Yn cael ei roi yn ôl yn y prosiect i'w gadw i redeg

# CRONFA ASEDION CYMUNEDOL

## PWY YDYN NI?

Mae Cronfa Asedion Cymunedol / Community Asset Fund yn brosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd / LEADER. Rydym yn loteri ranbarthol sy'n gweithio'n agos gyda'r gymuned leol

ENILLWCH £100 y mis

## BETH YDYN NI'N EI WNEUD?

Rydym yn cefnogi prosiectau a sefydliadau cymunedol lleol trwy godi arian trwy'r cynllun loteri rhanbarthol

## PAM YDYN NI'N EI WNEUD?

Cefnogi cymunedau, prosiectau a sefydliadau lleol. Mae angen o hyd i feithrin ysbryd cymunedol, ac mae'n dod â phobl ynghyd

SGANIWCH FI

SGANIWCH I LAWRLWYTHO ARCHEB SEFYDLOG




CLEBRAN PAPUR BRO'R PRESELI

Llywodraeth Cymru Welsh Government

www.asedion.cymru

arwain sir benfro LEADER Pembrokeshire

**Ffurflen D**

# Gorchymyn Archeb Sefydlog

Hoffwn i 50% o fy nghyfraniad fynd i: CLEBRAN PAPUR BRO'R PRESELI

**Dychwelwch i:**
PLANED, Yr Hen Ysgol, Arberth, Sir Benfro, SA67 7DU

**Eich manylion...**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad<br><br>Côd Post | |
| Rhif Ffôn | |
| E-Bost | |

Manylion eich banc...

| | |
|---|---|
| Enw Banc | |
| Cyfeiriad Banc<br><br>Côd Post | |
| Enw Cyfrif | |
| Côd Sortio | |
| Rhif Cyfrif | |

**Byddwch gystal â thalu:**

| Banc | Teitl y Gangen | Rhif Côd Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| **Lloyds Banc** | **Aberteifi** | **30 – 91 - 65** | **00806593** |

i Gredit: Enw'r sawl sy'n elwa: **Cronfa Asedion Cymunedol**

**Yr wyf yn cytuno i dalu ffi weinyddol gychwynnol o £6.00 (chwe phunt) ac yna swm misol o £5.00 (pum punt) i'w dalu ar y 1af (cyntaf) o bob mis, i ddechrau nawr, hyd ein bod yn eich hysbysu.**

**Llofnod(ion):**

**Dyddiad:**

**Defnydd Swyddfa:**

**Hrywyddwr:** CLEBRAN PAPUR BRO'R PRESELI

Mwy o wybodaeth www.asedion.cymru

# NEWYDDION Y FRO

## Blaenffos

Pob dymuniad da i Ivy Edwards sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Parcllyn. Llongyfarchiadau i Maureen Evans, Tŷ Coets sy'n hen famgu am y tro cyntaf.

Braf gweld Sioned Phillips yn ôl wrth ei gwaith yng Nghop Crymych ac wedi gwella o'r Covid. Llongyfarchiadau i John a Glenys Davies, Rhoson ar ddathlu eu priodas ddiamwnt yn ddiweddar.

Cydymdeimlir yn ddiffuant â theulu'r Glasdir ar golli Debbie Rodgers, nith a chyfnither iddynt. Bu Debbie farw mewn damwain ffordd erchyll yn agos i Lwyngwair, tra'n teithio tuag adref.

Cydymdeimlir â Gareth Howells a theulu Ffynnonllawddog, ar golli cefnder iddo, Huw Howells, mewn damwain angeuol tra wrth ei waith ger Arberth. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Bethesda, Llawhaden ddydd Sadwrn, Rhagfyr 5. Derbyniwyd rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Cymru trwy law Ken Davies, Clunderwen.

## Boncath

Mae Pwyllgor Neuadd Boncath yn dymuno rhoi Coeden Nadolig ym maes parcio Neuadd y pentref fel ymgais i galonogi'r gymuned ac i ddathlu'r ŵyl eleni.

Dymuniadau gorau i Emyr Thomas, Delmyr, ar ôl cael damwain gas wrth gwympo drwy do sied a disgyn ar ben treilyr. Mae e' yn Ysbyty Glangwili, ond o dan ofalaeth arbenigwyr Ysbyty Treforys. Gŵr Delyth yw e, sy'n edrych ar ôl ochr ariannol ysgolion y cylch, ac yn dad i Dylan, sy'n drydanydd, a hefyd yn dad i Siwan, sy yn y coleg. Mae e'n dod ymlaen yn raddol, diolch i'r drefn.

Gwellhad buan i Lisa Pegg, Sŵn y Cardi, sy' wedi cael llawdriniaeth sydyn yn Ysbyty Llwynhelyg, oherwydd llid y pendics. Mae'n wraig i James, Ffenestri "Country", ac yn fam i Leiah, sy'n Ysgol y Preseli, ac yn fam i Tallulah a Vinney hefyd, y ddau yn Ysgol y Frenni. Chris Voysey a Kathy, rheolwraig Siop Boncath, yw rhieni Lisa, a Pearl Davies, Maes-y-bedw, yn fam-gu iddi. Da clywed bod Lisa adref, ond yn cymryd pwyll.

## Brynberian



Mae yna gyfres newydd o 'Weatherman Walking' gyda Derek Brockway yn cyflwyno ar y gweill gan BBC Wales. Ma nhw eisoes wedi bod yng nghyffiniau Brynberian ac wrth gromlech Pentre Ifan wrth gwrs. Fe fu Sophie Jenkins yn sôn am dreftadaeth gyfoethog yr ardal.

Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd: 1 Joyce Davies, Trefdraeth 2 Mike Thomas, Ffynnongroes 3 Anona Williams, Trefdraeth 4. Oliver a Carys Lewis, Brynberian

Da gweld Ann Davies Eisteddfa Fach adre ar ôl bod am gyfnod yn Ysbyty Llwynhelyg. Dymunwn wellhad buan iddi.

## Bwlch-y-groes

Dymunir penblwydd hapus i Colin Evans Rhydyfrenni a hefyd Arwyn Harries, Garregwen, – y ddau yn dathlu penblwydd arbennig ym mis Rhagfyr. Dymuniadau da i Lowri Truslove, Cefncroes yn yn ei swydd newydd.

Mae yna gyffro yn yr ardal. Mae'r gwaith o godi'r Neuadd newydd ar y gweill. Cwmni Emyr Davies a'i Fab, Ffostrasol sy wrthi ar sail cynlluniau pensaer lleol, Stewart Corbett.





Dywedodd Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd, Elizabeth Law: "Rydyn ni i gyd yn gyffrous i weld yr adeilad gorffenedig ac i allu cwrdd eto fel cymuned yn y neuadd newydd, cyn belled â'n bod ni'n gallu gwneud hynny beth bynnag!"

Mae digwyddiad agoriadol yn cael ei gynllunio a hoffai'r pwyllgor sicrhau bod pobl sydd ag unrhyw gysylltiad â'r hen ysgol ym Mwlch-y-groes neu'r hen neuadd yno.

"Gallai'r agoriad hwn hefyd fod yn aduniad answyddogol i gyn-ddisgyblion yr ysgol, a byddai'n wych pe bai pobl a oedd yn yr ysgol yn gallu lledaenu'r gair i gyn-ddisgyblion eraill, a byddwn ni'n rhoi manylion pellach pan fyddant gennym ni .

Byddai hefyd yn dda cael ffotograffau a straeon o atgofion pobl o ddod i'r neuadd fel y gallem o bosib guradu arddangosfa ar gyfer yr agoriad," meddai Elizabeth.

**Eisiau gwirfoddolwyr**

Hoffai'r Pwyllgor hefyd wahodd aelodau'r gymuned i gysylltu os gallant helpu neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd yn yr amser sydd yn arwain at yr agoriad. Bydd croeso mawr i unrhyw un sydd â sgiliau fel paentio ac addurno, garddio, tirlunio neu sy'n barod i gyfrannu peth amser, i gysylltu â'r pwyllgor trwy e-bostio bwlchygroeshall@gmail.com, ffonio Suzanne Griffiths-Rees ar 01239 698586, neu gysylltu ar ein tudalen Facebook.

Bydd y neuadd newydd yn gwasanaethu cymuned Bwlch-y-groes a phentrefi cyfagos. Adeiladwyd y neuadd wreiddiol yn 1951 pan benderfynodd yr awdurdod addysg ddarparu neuadd i'r ysgol, a adeiladwyd o gytiau byddin wedi'u hailgylchu o Dde Sir Benfro a Hermon, ac a ddodrefnwyd ag arian a gododd y gymuned drwy ocsiwn. Dylai fod wedi'i chwblhau erbyn y gwanwyn.

# Capel Newydd



Cadeirydd Cyngor Cymuned Maeordeifi, y Cyng Aled Lewis, Capel Newydd, yn gosod torch yn enw'r gymuned wrth gofeb y plwyf yn Neuadd Abercych ar Sul y Cofio. Fel arfer cynhelir oedfa ond eleni oherwydd y rheolau Covid dim ond un fu yn cofio am ymdrech ac aberth y nifer dewr y gwelir eu henwau ar y gofeb.

Croeso adre a dymuniadau gore am adferiad llwyr i Glenys Todd, Hafod yr Efail, sy' wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Llwynhelyg. Mae'n teimlo tipyn gwell erbyn hyn ac yn cael y gofal gore gan Peter, Sian, Warren a'r merched.

Llongyfarchiadau i enillwyr Clwb Cant y Cae Chwarae mis Hydref, sef Ben Truslove, Cylch Meithrin Bwlch-y-groes a Judith Griffiths.

Llongyfarchiadau gwresog i Lynda Williams, Pentre Bach, ar gael ei hethol yn ddiweddar, yn aelod o Gyngor Cymuned Manordeifi. Mae'n weithgar tu hwnt, yn berson hollol ddibynadwy, ac yn barod iawn ei chymwynas. Dymunwn iddi bob dymuniad da a rhwyddineb yn y gwaith pwysig hwn. Dathlodd Sian Jenkins, Dawns y Dail, ei phen-blwydd yn hanner cant ar Ragfyr y 4ydd.

# Cilgerran

Dymunwn estyn ein cydymdeimlad dwysaf i Peter a Claire Williams, 4 Castell Corwg, Cilgerran ar golli eu mab Kieran yn ddiweddar. Dioddefodd Kieran o gancr ers yn bymtheg oed gan frwydro'n ddewr yn erbyn ei waeledd.

Mae'r Cynghorydd John 'Cwmbetws' Davies wedi sicrhau grant loteri i alluogi'r Cyngor Cymuned i wella'r llwybr sy'n arwain o'r Castell i'r Ganolfan Gwrwglau ar lan yr afon yn Nolbadau. Defnyddir y grant o £9,700 i lanhau'r llwybrau, adeiladu grisiau diogel a darparu byrddau gwybodaeth newydd. Bydd hyn yn gwella adnodd sydd yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan bobl leol ac ymwelwyr. Newyddion ardderchog i'r gymuned.

A rhaid diolch i Wyn Jones am ddefnyddio ei amser adeg y cyfnod clo i lanhau eiteddfan islaw'r castell. Dros y blynyddoedd roedd yr eisteddfan bedol a adeiladwyd yn y flwyddyn 2000 wedi tyfu drosodd ond gwelodd Wyn ei gyfle i ddefnyddio ei amser clo i wneud y gwaith yn wirfoddol. Diolch yn fawr iawn.



Mae Pwyllgor Iaith a Threftadaeth y pentref wedi prynu ysgythriadau a phrintiau wrth Mercedes Williams oedd yn gadael yr ardal am Awstralia. Roedd ei gŵr, Jimmy, wedi casglu printiadau o Gastell Cilgerran ar hyd ei fywyd - tua deugain mewn nifer ac erbyn hyn maent yn eiddo i'r pentref. Ymfudodd y ddau o'r pentref i Awstralia yn y 60au ac yna dychwelyd atom yn 2010. Yn dilyn marwolaeth Jimmy yn ddiweddar dychwelodd ei weddw, a oedd yn byw ym Mhenybryn ac o dras Sbaenaidd, i Awstralia drachefn. Buom yn ffodus hefyd bod Pwyllgor Gŵyl Cilgerran wedi talu'n llawn amdanynt. Dyma rai ohonynt.









## Crymych

Cydymdeimlir yn ddwys â Bethan a Colin Davies ar farwolaeth Debbie Rodgers, cyfneither Bethan, a fu farw mewn damwain ffordd ger Felindre Farchog ar ei beic modur. Roedd Debbie yn 41 oed ac yn rheolwraig gyda chwmni Jewsons yn Aberteifi. Bu'n byw yn Nhegryn am gyfnod ac yn ferch i Meinir a Phil ac yn chwaer i Tanya, Gareth, Michael a Ffion. Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Gorffwys Aberteifi ar ddydd Sul, Tachwedd 22 i gofio am ei bywyd cyn claddu ei gweddillion ym Mynwent Macpellah, Dinas

Dymunir gwellhad buan i Eiros Edwards sydd bellach adref o'r ysbyty. Llongyfarchiadau i Dylan Thomas, Llain Drigarn a Trysorydd Clebran, ar gyrraedd yr hanner cant ac ar ben hynny am golli chwe stôn. Bron hanner y bachan a fu! Llongyfarchiadau i Rachel Boulton a'i phartner, Brynhyfryd, ar enedigaeth Jac.

Y Parch Rhosier Morgan oedd yng ngofal Seremoni'r Cofio y tu fas i Neuadd y Farchnad ar ddydd Mercher, Tachwedd 11. Seiniwyd yr utgorn gan Chris Monk.



Oes rhywun yn gwybod rhywbeth am y ddau lun yma? Doedden nhw ddim wedi'u cynnwys yn y gyfrol *Crymych Dwê a Heddi* a gyhoeddwyd yn 2009. Pryd tynnwyd nhw a gan bwy?








Rhaid bod yn garcus hyd yn oed wrth gyflwyno siec. Jac a Mair Vaughan yn cyflwyno siec o £651 i Nia Rees, cadeirydd Pwyllgor ,Cylch Meithrin Crymych yn dilyn y Daith Tractore flynyddol.

A rhaid canmol y Cylch a Wendy Phillips, yr arweinydd, yn benodol, yn dilyn eu llwyddiant ym mhumed Seremoni Gwobrau Mudiad Meithrin. Cafodd Wendy ei dewis fel arweinydd gorau Cymru, a'r Cylch ei hunan yn ennill y prif le yng nghategori Dewin a Doti. Mae'r categori hwnnw yn cael ei roi ar gyfer y deunydd gorau o ddefnyddio Dewin a Doti yn y Cylch a dilyn canllawiau Mudiad Meithrin. Dewin yw cymeriad unigryw y Mudiad ac mae ganddo ffrind ffyddlon o'r enw Doti y ci. Fe ddaeth y Cylch yn ail yn yr categori Cylch Meithrin gorau yn y De-Orllewin.




*Wendy Phillips a Dewin yng nghanol y plantos.*



*Mae yna weithgareddau awyr agored hefyd.*

Llongyfarchiadau i Mirain Iwerydd ar gael ei dewis i addurno clawr rhifyn y gaeaf o'r cylchgrawn newydd i ferched, *Cara*.




## Efail-wen



Trist yw cofnodi marwolaeth Russell Davies, un o gyfeillion pennaf Clwb Criced Crymych, pan oedden nhw'n chwarae ar gae'r Glandy. Byddai yno ymhob gêm yn dangos diddordeb ac yn annog yn ogystal â chynorthwyo'r tirmon ar gyfer paratoi'r llain yn ystod yr wythnos cyn Sadwrn y gemau. Fe'i gwelir yn y llun ar y dde yn cael ei anrhydeddu gan un o hoelion wyth y clwb, John Williams. Arferai gyrraedd ar ei feic gan ddiflannu'n sydyn ganol prynhawn i fynd adre i gael te cyn seiclo nôl eto cyn diwedd y gêm.

## Eglwyswrw



**AWEN TEIFI**

Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a recordiau.

Ar agor 9yb–5yh
Llun i Sadwrn

(01239) 621370

23 Stryd Fawr,
Aberteifi. SA43 1HJ

**M. L. Davies**

Addurnwyr



Awelfryn,
Tegryn,
Sir Benfro.
SA35 0BE

07811 871423
07971 545264
(01239) 698320

Diolch i flaenoriaid Eglwys Sant Cristiolus am drefnu'r gwasanaeth Sul y Cofio eleni eto, ac ymgodymu ag anawsterau rheolau'r coronafeirws a oedd mewn grym. Daeth nifer parchus ynghyd, cychwynnwyd y gwasanaeth am 10.45yb, – gyda dau funud o dawelwch am 11yb. Y Parchedig John Powell oedd yn gweinyddu.

Llongyfarchiadau i Dai a Edwina Morris, Nant-yr-helygen Fach ar ddathlu eu Priodas Aur ar 21ain o Dachwedd. Cydymdeimlwn â theulu Cipill ar golli perthynas sef Debbie Rodgers o Dinas a fu farw mewn damwain ffordd ger Felindre Farchog, a hithau dim ond yn 41 mlwydd oed.

Mae'n werth mynd heibio Garej Penfro gyda'r nos i weld y goleuadau. Mae'n Nadolig!





## Hebron

Mae aelodau Capel Hebron yn dymuno'n dda i Denzil Davies ar ddathlu ei ben-blwydd yn 94 oed ar Dachwedd 20. Bu cyn-brifathro Ysgol Pant-y-caws yn derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar ond nawr mae wedi dychwelyd i Gartre Carreg Lwyd, Heol Salem, Sancler.

## Hermon

Dymunwn wellhad buan i Janice Williams, Dolau sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ag sydd yn dal i fod yn anhwylus. Pob dymuniad da iddi.

Cydymdeimlwn â Gwyneth Evans a'r teulu, Llys Meirlas ar golli cyfnither mewn damwain erchyll, sef Debbie Rodgers o Dinas.

Bu Cylch Meithrin Hermon yn codi arian yn ddiweddar drwy gasglu bagiau o ddillad a.y.b. i'w hailgylchu. Casglwyd 358 o fagiau a gwnaed elw o £486. Mae'r plant hefyd wedi bod yn cerdded o amgylch y pentref ym mhob tywydd o dan nawdd "Cylchoedd sy'n cerdded" er mwyn codi arian i'r cylch. Da iawn blantos.



## Llandudoch

Llongyfarchiadau i Aled a Siwan Hughes, Penllyn ar enedigaeth mab bach, Deio Tomos Huws ar Tachwedd 15fed yn Ysbyty Gwynedd. Brawd bach i Gwil a ŵyr arall i Terwyn a Marged.

Ym mis Awst cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid ar fferm Lyn Evans, Pantirion, y cyfan dan reolau COVID19. Cyflwynwyd yr elw o £600 i 'Nyrsio yn y Gymuned, Aberteifi.'

Llongyfarchiadau i Oliver James ar gyrraedd y rownd derfynol categori Gwirfoddolwyr Ifanc y Sir a drefnwyd gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro. Cafodd ei enwebu fel person oedd wedi cynorthwyo yn lleol ac wedi bod ar flaen y gâd yn ei gymuned dros gyfnod y pandemig.

### Siwmperi Eileen

Yn dilyn ymgyrch Eileen Johnson i gasglu siwmperi i blant ffoaduriaid yn Ewrop, mae 2020 wedi cyrraedd Lesvos, Groeg erbyn hyn. Gan fod yna 1,000 o siwmperi ar ôl trefnwyd bod rhain yn cael eu trosglwyddo i Gymdeithas y Plant yng Nghaerdydd fel y gellir eu dosbarthu, (fel anrhegion Nadolig) i blant sy' mewn angen. Cofiwn fod yna blant yn byw mewn amodau truenus dros y byd.

### Lucy Gannon

Mae Lucy Gannon wedi ymgartrefu yn y pentre ers nifer o flynyddoedd ac mae ei nofel gyntaf ar ffurf hunangofiant ei phlentyndod nawr yn y siopau, dan y teitl '*The Amazing Astonishing Story*'. Yn awdur 8 o ddramau a 18 o ddramau ar gyfer y teledu, mae wedi derbyn yr 'MBE' am ei gwasanaeth i fyd y ddrama. Mae'n cydnabod bod i Grist le amlwg yn ei bywyd a darlledwyd ei drama 'Judas' ar y radio nôl ddechrau'r flwyddyn.

Dymuniadau gorau i Catrin Devonald sydd wedi ei phenodi yn ddarlithydd yn yr adran Addysg Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru.

### Capel Degwel

Bu Sian Elin Thomas, Crymych yn gyfrifol am oedfa mis Hydref yng Nghapel Degwel a dymunir yn dda iddi ar ei chyfnod olaf o baratoi at y weinidogaeth. Am flwyddyn, bydd â gofal Capel y Graig, Castell Newydd Emlyn, a hyn dan oruchwyliaeth y Parch Irfon Roberts, Aberteifi.

Bore Sul Tachwedd 15fed cafwyd oedfa gymun yng ngofal Dr. Owain Rhys Roberts, Aberystwyth, (mab-yng-

nghyfraith Terwyn a Marged Tomos). Croesawodd Terwyn yr aelodau, hefyd Mike a Sian James (Capel Blaenwaun) a Mr. Wilson, Arosfa, i'r oedfa.

Mae ffurf yr oedfaon yn gwahaniaethu o fis i fis. Tro yma gwnaeth Owain ganolbwyntio ar egluro ystyr geiriau emyn Ann Griffiths – rhif 338 yn *Caneuon Ffydd* – yn arbennig y profiadau ar gobaith sydd yn y penillion. Wrth gwrs, nid oedd yn bosib canu'r emyn yma. Bydd yr oedfa nesaf ar Rhagfyr 13eg, os bydd cyfyngiadau COVID yn caniatáu.

## Llanfyrnach

Dymunwn wellhad buan i Alun Lloyd, Sunnyhill, sydd wedi cael llawdriniaeth ar ei galon yn Ysbyty Treforus ac mae'n dda clywed bod Janet yn llawer gwell ar ôl cael ei llawdriniaeth hithau.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i John Llewellyn, M.B.E., Dolcoed, sy'n cael triniaeth yn Ysbyty Llwynhelyg ar hyn o bryd. Treuliodd John yrfa yn yr Awyrlu Brenhinol ac roedd yn un o'r dewrion fu'n hedfan uwchben Rwsia i'n cadw'n ddiogel yma yn y Gorllewin dros lawer o flynyddoedd. Bu Marnie ei wraig yn hyfforddi Ymarfer Corff a Thrampolin i dîm Olympaidd Prydain Fawr pan oedd yn iau.

Mae Joyce Williams, Trehenry, yn gwella'n dda erbyn hyn ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Treforus cyn mynd ymlaen i gael profion yn Singleton ac yn Ysbyty Glangwili wedi hynny.

Cafodd Elin Williams, Trehenry, ei phum munud o enwogrwydd ar y teledu ar nos Sadwrn yr Eisteddfod Genedlaethol na fu. Gan nad oedd Eisteddfod eleni, daeth Elin a llawer o Gymry byddar eraill ynghyd yng Nghastell Caerdydd. Gwelwyd y rhai na allai deithio yno yn cymryd rhan ar y rhyngrwyd. Bu "Premier Arwyddo'r Anthem" yn llwyddiannus dros ben gyda Syr Bryn Terfel yn canu.

Penblwydd hapus i Evelyn Brennan, Tŷ Newydd, ar gyrraedd carreg filltir arall.

## Maenclochog



Mae'r arlunydd Linda Norris, Llwynon wedi bod yn gynhyrchiol unwaith eto gan greu clustdlysau o bob math yn ogystal â'i phaentiadau haniaethol arferol a chardiau Nadolig dwyieithog. Teitl y darlun uchod yw 'Golau Euraid'. Gellir gweld yr hyn sydd ganddi ar werth dros y Nadolig ar ei horiel ar-lein.

Dymunir gwellhad buan i Gary Bevan, Trem-y-wawr, sydd wedi derbyn triniaeth ysbyty unwaith eto yn Nhreforys. Mae sedd y tractor yn ymwhedd. Da oedd gweld Carys Phillips, Penlan, ar y rhaglen 'Ffermio' yn sôn am weithgaredd Clwb Ffermwyr Ifanc Llys-y-frân yn ystod y cyfnod clo a pha mor bwysig yw'r mudiad i ieuenctid cefn gwlad.

Da gweld bod Caffi'r Sgwâr yn dal ar agor o dan ddwylo medrus Ian Eynon a'i wyres, Alys Eynon, Tegfan. Hoe haeddiannol i Carolyn Lloyd a Phil Hughes, Afallon, wedi'u gorchest yn sefydlu busnes llwyddiannus. Dymunir gwell iechyd i'r ddau.

Mae'r gwaith wedi dechrau i baratoi'r tir ar gyfer codi ystâd o dai newydd wrth i fynedfa newydd gael ei thorri o Heol Fair. Does yna ddim enw i'r ystâd eto.



Llongyfarchiadau i Ceri Ashe, y Ffarm, ar lwyfanu dwy ddrama rhithiol o'i gwaith ei hun gyda chydweithrediad Span Arts yn enw Cynhyrchiadau Popty Ping. Perfformiwyd y ddrama 'Lockdown Tales: Making Babies' ar Ragfyr 4 ac yna 'Chwedlau'r Cyfnod Clo: Bara a Babis' y noson ddilynol. Roedd Ceri'n perfformio o Lundain tra roedd ei chynhyrchydd yn San Fransisco.

## Mynachlog-ddu

Dymuniadau gorau i Pat Davies, Ynys Fawr a Leonard John, Tycwta sydd wedi derbyn triniaeth ysbyty yn ddiweddar. Da clywed bod y ddau yn gwella.

Braf oedd clywed Huw Griffiths, Blaendyffryn gynt, yn sgwrsio mor hamddenol gyda Ifan Evans ar ei raglen brynhawn dydd Mercher, 18 Tachwedd

**MAENCLOCHOG HARDWARE**
**Trebengych, Rosebush, Clunderwen, Sir Benfro**

**Rhif ffôn:** 01437 532 478
**Ffacs:** 01437 532 918
**E-Bost:** arfon.williams@btinternet.com

**Amserau agor**
Llun - Gwener 9.00 i 5.00
Ar gau Sadwrn, Sul a Gŵyl y Banc.

Cyflenwyr o bob math o offer amaethyddol; Gatiau, offer bwydo a deunyddiau ffensio

**Deunyddiau adeiladu;**
Blociau concrit, tywod, sment a phibellau draenio

Amrywiaeth eang o ddeunyddiau a nwyddau, hefyd o ffitiadau dŵr a phibellau

Bwydydd ceffylau ac anifeiliaid anwes.

**PRITCHARD a'i Gwmni**

CYFRIFWYR SIARTREDIG ARDYSTIEDIG

**Mae gennym bartneriaid a staff sy'n medru cynnig gwasanaeth Cymraeg cyflawn yn y meysydd canlynol:**

- Hunan Asesiad
- Paratoi cyfrifon busnesau a'u cyflwyno i Gyllid y Wlad
- Ffurflenni Treth Incwm unigolion
- Treth ar Werth a thalu wrth ennill
- Cyngor ar bob agwedd o drethiant

74 Stryd Fawr, Abergwaun (01348) 873263
47 Stryd y Santes Fair, Aberteifi (01239) 612475 / 612583
15-17 Castle High, Hwlffordd (01437) 764785

ar Radio Cymru. Camp Huw oedd adnabod sŵn y peiriant amaethyddol ac fe wnaeth yn dda iawn i adnabod y math o beiriant mewn cystadleuaeth anodd iawn.

Yn anffodus oherwydd y cyfnod clo byr nid oedd hi'n bosibl cynnal oedfa gymun ym Methel ar ddechrau mis Tachwedd fel y bwriadwyd. Mae oedfa gymun wedi ei threfnu nawr ar gyfer bore dydd Sul, 6 Rhagfyr gyda'r mesurau diogelwch priodol mewn lle. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael ail ddechrau cyfarfod.



Mater o fieri lle bu mawredd oedd hi dro yn ôl pan gyhoeddwyd llun o'r blwch llythyru hwn. Prin ei fod i'w weld. Ond bellach mae ar ei newydd wedd diolch i gryman y postman lleol, Cefin Vaughan. Yn ystod ei ddeng mlynedd o ddosbarthu yn yr ardal bu'n casglu deunydd o'r blwch ar ben feidir Maes Carafanau Trefach yn gyson. Ei gyngor yw ei fod yn barod i gasglu cardiau Nadolig oddi yno nawr.

## Rhos-y-bwlch

Gweler y llun ar ben y golofn nesa' o'r datblygiad posib fydd ar dir allt Pantmaenog. Mae'r datblygwyr, sy'n cynnwys Coed Cymru, eisoes wedi cael caniatâd i godi gweithdy trin coed ar y safle.





*Allt Pantmaenog fel ymae nawr*

Y bwriad yw codi chwech o dai fforddiadwy tair ystafell wely wedi'u gwneud o bren. Bydd y datblygiad yn bentref bychan eco-gyfeillgar â'r preswylwyr yn gweithio yn y gweithdy yn trin coed lleol. Rhoddir pwyslais ar ynni adnewyddadwy a thyfu bwyd gan wneud y gymuned mor hunan-gynhaliol â phosib. Mae'r cais cynllunio gerbron yr awdurdodau ar hyn o bryd. Mae Coed Cymru hefyd yn gyfrifol am elltydd Tŷ Rhyg a Glyn Aeron ac wedi bod wrthi yn eu teneuo'n ddiweddar.

## Cofnodion Teuluol

**Sioned James**

I gofion'n dyner am Sioned, Llys Iago a hunodd Rhagfyr 1af, 2018 yn 28 mlwydd oed. Partner ffyddlon a merch gariadus, chwaer a modryb annwyl. Oddi wrth Hef, Dad a Mam, Steffan, Serena ac Erin, a'r teulu oll. "Edau cariad ni thorrir byth"

Pritchard Cowburn
OPTICIANS
WWW.PRITCHARD-COWBURN.COM
neubau
TITANflex
OAKLEY
Ray-Ban
BOLON
Silhouette
01239 612004
19 Pendre, Aberteifi
01834 861660
Spring Gardens, Arberth

E. P. PARRY
M. R. Pharm. S.
Y Fferyllfa, Crymych
✆ 01239 831243
Gweinyddion GIG a Phreifat.
Moddion Fferylliaeth.
Profion Beichiogaeth.
Gofal am anataliad a stoma.
Cyfarpar llawfeddygol a dresinau.
☆☆☆
ASIANTAETH BAPURAU
Papurau dyddiol a lleol,
Cylchgronau, Anrhegion,
Nwyddau Ysgrifennu, Losin
Gwin a Gwirodydd,
Nwyddau Cosmetigau

# Y newid aruthrol yn ein cymunedau

**What Fishing village?**

*You have taken our village*
*Not with bullets bombs or force,*
*You did it slow and steady forcing us poor locals out of your rich folks second home bidding wars,*
*You have taken our once fishing village and turned It into your six week holiday playground,*
*Our once proud village slip where no more... fishermen are to be found,*
*Only second homes ribs and jet skis scattered all around,*
*All lined up for them well-spoken spoilt English girls and boys,*
*You have taken our village and filled it with your toys,*
*But when you get in trouble far off... well away from land... cos you know not the waters nor the tides rocks and sand,*
*You send them flares up... now it's our help you so demand,*
*For the locals... them that man the lifeboat cos they once fished these waters with the rope burned calloused hand,*
*They know tides... hidden rocks and treacherous shifting sands,*
*With courage they steam out to save you before it's all to late*
*But soon there will be no one left with the knowledge to save you from your fate.*

Phil Stoddard

**Bro**

Beth sydd ar ôl i ddweud,
Pan fo'r gwynt dros erwau'r rhos
Mor fain â iaith y chwarae
Ar yr iard?

Pa fodd y canfyddwn eto o dan y cegid,
Alaw yr afon hithau,
Tra bo grŵn y llanw'n corddi
Tros ein mynd a'n dod?

Beth sydd ar ôl i'w wneud,
Ond mwmial ein rhwystredigaeth,
I'w chwalu'n ddarnau gan y gwynt
Uwch erwau'r rhos.

Yno, lle mae blodau'r eithin
Yn eu miloedd
Eleni mor felyn ag erioed.

Ac yno lle pawr y ddafad mor ddihid
O'r cyfarth ym mharthau'r
'Bluestone View'.

Wyn Owens

Cyhoeddwyd cerdd Phil Stoddart ar dudalen gweddlyfr *Pembrokeshire we really Love It* ar Dachwedd 15. Mae gan y dudalen 7,200 o ddilynwyr. Cafwyd ymateb chwyrn dros ac yn erbyn byrdwn y gerdd. Ond roedd yn chwa o awyr iach. Pwrpas pennaf y dudalen yw hyrwyddo prydferthwch y sir er mwyn denu ymwelwyr. Clodwiw. Ond perthyn gogoniant i'r sir heblaw am y golygfeydd o brydferthwch syfrdanol. Mae yna ogoniant yn perthyn i'w phobl hefyd a llawer ohonyn nhw yn teimlo o dan fygythiad o ran dyfodol eu cymunedau a gallu ieuenctid sydd am aros yn eu cynefin i brynu cartrefi. Gwyntyllwyd y sefyllfa'n drwyadl.

Cyhoeddwyd cerdd Wyn Owens yn ei gyfrol *Y Patshyn Glas* yn 2005. Mae'r naill gerdd yn adleisio'r llall o ran fel y gwêl y ddau fardd y newid yn ein cymdogaethau; y naill yn byw yn Tiers Cross a'r llall ym Mynachlog-ddu. Mae beirdd bob amser yn medru crisialu teimladau eu cyfoedion mewn modd na wneir mewn adroddiadau ac astudiaethau. Maent yn cydio ym mywyn y mater. Er rhaid cofio nad yw'n fater o ddu a gwyn. Mae yna Gymry lawer o fewn y fro dros y degawdau wedi dewis enwau Saesneg ar eu cartrefi ac yn wir ar eu plant. Dylanwad Hollywood a'r byd adloniant Eingl-Americanaidd yn gryfach o lawer na dylanwad Anghydffurfiaeth.

Dengys y ddwy gerdd unwaith eto bod y ddwy ran o'r sir er y gwahaniaethau ieithyddol traddodiadol yn unedig yn eu pryderon ynghylch parhad ffordd o fyw a'r bygythiad o gael eu traflyncu gan fewnfudwyr a pherchnogion ail-gartrefi. Mae'r pryderon hyn wedi'u rhannu gan Gynghorau Sir Gâr a Sir Benfro bellach. Roedd aelodau cabinet y ddwy sir yn annerch rali a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yng Nghaerfyrddin ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 21.

Yn y rali cyflwynwyd llythyr i'r Cyng. Cris Tomos yn gofyn i Gyngor Sir Penfro bwyso ar y Llywodraeth i roi grymoedd argyfwng i awdurdodau lleol i reoli'r farchnad dai er mwyn sicrhau cartrefi i bobl leol. Trosglwyddwyd y llythyr i ddwylo arweinydd Cyngor Sir Penfro, y Cyng. David Simpson.

Ar ran y Gymdeithas, dywed Sioned Elin "Allwn ni ddim disgwyl nes etholiad llywodraeth newydd y flwyddyn nesaf, gan fod prisiau tai wedi codi gymaint yn yr ardaloedd gwledig fel bod teuluoedd lleol yn cael eu gorfodi o'r farchnad. Mae angen i'r llywodraeth roi pecyn argyfwng o rymoedd i Awdurdodau Lleol yn awr i reoli'r sefyllfa."

Yn ddiweddar gwrthododd cabinet Cyngor Sir Penfro ddefnyddio ei hawl i godi'r dreth ychwanegol a osodir ar ail-dai o'r 50% presennol i'r 75% a argymhellwyd gan Blaid Cymru. Mae Cyngor Dinas Abertawe yn codi 100% o gofio bod llawer o gyfoethogion yn berchen ar ail-dai yng Ngŵyr. Mae protestwyr yn Nefyn ac ym Mhen Llŷn wedi mynnu cyfarfod rhithiol ar frys gyda'r prif weinidog, Mark Drakeford, i drafod y sefyllfa.

Nid yw'r mater ar ben am nad yw wedi'i ddatrys. Disgwylir i gyfarfod llawn o Gyngor Sir Penfro drafod yr argyfwng tai yn eu cyfarfod nesaf ar y 10fed o Ragfyr ac mewn cyfarfodydd pellach mae'n siŵr. Yn y cyfamser cafwyd ymdriniaeth gytbwys o'r argyfwng yn rhifyn mis Tachwedd o'r papur hwn gan neb llai na Jonathan Jones. Ysgrifennai ar sail oes o brofiad o weithio ym maes twristiaeth. Deil i arddel ei wreiddiau yn y fro.

Cafwyd ymateb hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol i erthyglau eraill a gyhoeddwyd am yr ymdrechion i hybu'r Gymraeg gan dynnu sylw at y modd y mae'r defnydd ohoni wedi newid. Wele rai enghreifftiau:

*"Llawer o eiriau Saesneg yn ein iaith bob dydd pan yn yr ysgol. Cân Dafydd Iwan, 'lessons history, lessons geography lessons English o hyd ac o hyd ac ambell i lesson yn Welsh chware teg' . Hon o hyd yn fy atgoffa. Fy Nghymraeg wedi gwella pan aeth y plant i ysgolion Cymraeg yn y de ddwyrain a wedi dysgu llawer wrth ddysgwyr Cymraeg! Trio gwella o hyd ond y geirie Saesneg yn slipo mas yn rhwydd weithie!"*

Ena Morris, Brynberian a Phontypŵl

Prin oedd y gwersi a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol y Preseli yn y 1960au. Dim ond cychwyn oedd y broses wrth sefydlu ffrwd Gymraeg

a ffrwd Saesneg. Byddai disgyblion y ffrwd Gymraeg yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn rhai pynciau.

*"Es i'n aml i'r llyfrgell Canolfan Addysg i Oedolion Crymych a'r chweched dosbarth yn gwneud gwaith cartref fan na ac yn gyrru'r llyfrgellydd gwreiddiol yn lloerig oherwydd Saesneg roedd eu hiaith gymdeithasol a phob un ohonynt yn gwbl rhugl yn Iaith y Nef. Ofnadwy."*

Anthony Stewart, Penfro, Dysgwr brwd

Mae seicoleg iaith yn gymhleth. Os yw plant yn hanu o gartrefi di-Gymraeg tebyg ei bod yn naturiol iddyn nhw gymdeithasu trwy gyfrwng y Saesneg. Hefyd pan fyddan nhw'n siarad Cymraeg mae eu geirfa'n aml iawn yn rhagori ar eiddo plant sy'n hanu o aelwyd Gymraeg. Dydyn nhw ddim wedi arfer siarad Cymraeg carreg calch. Wnaiff shiprys ddim o'r tro iddyn nhw. 'R'un pryd byddai'n braf clywed mwy o Gymraeg ar iard pob un o'n hysgolion.

*"Yn fy mlwyddyn olaf yn ysgol gynradd Drefach Felindre (er mai, hyd yn oed ym mhumdegau'r ganrif ddiwetha, Velindre ac nid Felindre oedd y sillafiad er mai "Felin Gymreig" oedd hi gyda dau Gymro pybyr, Tom a Ronald Felin, yn berchnogion arni) y daeth y bachgen uniaith Saesneg cyntaf i'r ysgol. Er tegwch iddo fe wnaeth ymdrech ganmoladwy i ddysgu'r Gymraeg ond y peth anffodus ac ysgytwol yn y cyfnod hwnnw hyd yn oed oedd i ni'r disgyblion Cymraeg ein hiaith (bron 100% ohonom) ddechrau cyfathrebu yn Saesneg hyd yn oed ymhlith ein gilydd, yn enwedig ar yr iard wrth efelychu chwaraewyr enwog y byd peldroed a chriced (gan gynnwys rownderi dyma'r unig chwaraeon oedd yn hysbys i ni gyda rhyw fath o ddeall ar y rheolau digonol)."*

*"Dyna ddechrau'r dirywiad aeth ganwaith gwaeth wedi trosglwyddo i'r Ysgol Ramadeg (Eton neu Harrow). Cefais y fraint, yn ystod fy ngyrfa, o ymweld ag ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru a'r tristwch pennaf i mi, wrth bwyso a mesur safon y Gymraeg a Chymreictod yr ysgolion, oedd y defnydd wnaed yn "naturiol" o'r Saesneg fel iaith gyfathrebu a chwarae'r disgyblion rhugl eu Cymraeg a hynny mewn nifer o'r ysgolion ar waethaf ymdrechion clodwiw ac ymroddedig nifer o benaethiaid ac athrawon gyda llwyr ymroddiad i'r Gymraeg."*

*"Y sialens fawr – sut mae goresgyn y llofrudd 'ma? Mae peryg enfawr a thrychinebus i ni gael ein llofruddio gan golli'r frwydr a cholli'n hiaith. Rhaid cyfannu i oresgyn ymosodiadau'r llofrudd i ni i gyd yn ei adnabod ond ymddengys fod y fantais gyfredol yn ei ddwylo fe. Troi'r fantais yn anfantais."*

John Dyfrig Davies, Drefach Felindre a Llandysilio yn Nyfed

Ie, prin oedd y sylwebaethau chwaraeon Cymraeg yn y dyddiau hynny. G.V. Wynne Jones, Kenneth Wolstenhome a Cliff Morgan a'u tebyg oedd hi. Ac yn sicr doedd y Lone Ranger na Tonto yn siarad ein hiaith ni. Na chwaith Hoss Cartwright a Wishbone. Ni wedyn oedd yn siarad eu hiaith nhw. 'Keep those doggies moving, oh they're disobeying Rawhide' oedd hi!



Oes mae gyda ni olygfeydd pert ac mae Cromlech Pentre Ifan yn ffefryn gan ffotograffwyr. Wedi addurno aml i galendr. Gallai fod mor eiconig â darlun 'Salem' Curnow Vosper a welir ym mhrif lun y dudalen flaen yng nghwtsh dan stâr Pantwraigen!. Mae'r fersiwn uchod o'r gromlech ar noson serennog i'w gweld ar dudalen gweddlyfr Llwybrau Celtaidd. Ond mae yna bobl yn byw yn y sir hefyd a llawer ohonyn nhw'n ddisgynyddion pobloedd a fu'n byw ar y tir ers canrifoedd.

**Gwesty Nant-y-Ffin**

**LLANDYSILIO**

Gwely a Brecwast

Ciniawau a Phrydau ar gyfer pob achlysur

Cysylltwch â **(01437) 563423**

**Gofalus**

Mae Malcolm a Suzanne, Bwyd y Byd, nawr yn rhedeg cwmni gofal sydd yn cynnig:

- Cymorth yn eich cartref, e.e. gydag ymolchi, meddyginiaeth, symud o gwympas a chymorth i gynnal eich hunan barch.
- Cymorth i fod yn rhan o'ch cymuned.
- Cwmni
- Rhywun i aros gyda chi pan fod eich gofalwr arferol yn cael amser bant.
- Staff sydd wedi eu hyfforddi.
- Staff Cymraeg ar gael.
- Amserau i'ch siwtio chi.
- Holwch ni ynglyn am ffyrdd o dalu e.e. pa gymorth sydd ar gael i chi neu hunan daliadau.
- Wedi cofrestru gyda AGGCC.
- Diwrnodau allan a chymorth i fynd i apwyntiadau.

Am fwy o fanylion cysylltwch a Malcolm ar: 01239 832852 / 07817 634810
E-bost – Gofalus@hotmail.com Gwefan – www.gofalus.com

# YSGOLION Y FRO

## Ysgol y Preseli

### Pennaeth Newydd Ysgol y Preseli



Dymunir llongyfarch Mrs Rhonwen Morris ar ei phenodiad fel Pennaeth newydd yr ysgol yn dilyn deuddydd o gyfweliadau nôl ym mis Hydref. Bydd Mrs Morris yn ymgymryd â dyletswyddau ei rôl newydd ddechrau Ionawr 2021 yn dilyn ymddeoliad Mr M. Davies ar Rhagfyr 31ain, 2020. Mae Mrs Morris wedi bod yn aelod o staff Ysgol y Preseli ers 2006 ac wedi gweithredu fel Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol ers 2016. Mae Mrs Morris yn enedigol o Bencader a derbyniodd ei haddysg yn Ysgol Dyffryn Teifi. Mae'n byw ym mhentref Blaenwaun gyda'i gŵr, Gerwyn, a'u mab Enoc. Pob dymuniad da i Mrs Morris yn ei swydd newydd.

### Cynllun yr Ysgolheigion




Eleni eto, mae rhai o ddisgyblion talentog bl 9 yn cael y cyfle i elwa o Gynllun yr Ysgolheigion sy'n cynnig cyfres o sesiynau tiwtora dan ofal arbenigwr allanol. Cafwyd lawnsiad i'r Cynllun ddydd Llun, 9fed o Dachwedd gan Mrs Ffion Richards, un o gydlynwyr Abl a Thalentog yr ysgol. Dechreuwyd ar y sesiynau tiwtora ddydd Mercher, 11eg o Dachwedd dan ofal Mrs Catrin Bradley. Disgwylir i'r disgyblion gyflwyno traethawd estynedig er mwyn 'graddio' ar ddiwedd y cynllun yn Nhymor y Pasg 2021. Dymuniadau gorau iddynt i gyd a diolch i Mrs Richards am gydlynu trefniadau'r Cynllun arbennig hwn.

### Cofio Kieran

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth y cyn-ddisgybl Kieran Sabiston Williams o Gilgerran a fu farw'n 23 oed. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu yn eu hiraeth o golli Kieran yn dilyn wyth mlynedd o frwydro'n ddewr yn erbyn y cancr.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Mr Dafydd Hughes, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol ar gael ei benodi'n Bennaeth newydd Ysgol Caer Elen. Bydd Mr Hughes yn olynu Mr Michael Davies. Ymunodd Mr Hughes ag Ysgol y Preseli ym Medi 2009 fel Pennaeth Cynorthwyol gyda chyfrifoldeb am y chweched dosbarth ymhlith ei ddyletswyddau niferus. Dymunir bob rhwyddineb i Mr Hughes yn ei swydd fel Pennaeth Ysgol Caer Elen.

### Codi arian



Llwyddwyd i godi swm teilwng o £850.00 ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen eleni drwy gynnal diwrnod allan o wisg ysgol. Codwyd arian hefyd yn ddiweddar tuag at 'Follow your Dreams' ac ymchwil ar gyfer clefyd MS, y ddwy elusen yn agos iawn at galonnau dau ddisgybl o flwyddyn 11 eleni sef Caryl Haf Lloyd ac Amelia McBeth. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

### Diolch Des

Dymuna'r Pennaeth, Dirprwy a staff yr ysgol ddiolch i Mr Des Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr am ei ymroddiad a'i gefnogaeth dros yr wyth mlynedd ddiwethaf fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol. Bydd Mr Davies yn parhau i weithredu fel Llywodraethwr i'r dyfodol. Mae Des yn gyn-athro a chyn-ddisgybl yr ysgol. Dymuniadau gorau i Mr Carwyn James yn ei rôl fel Cadeirydd newydd y Corff Llywodraethol Ysgol y Preseli.

### Naws y Nadolig

Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau'r sefyllfa bresennol, ni fydd Ysgol y Preseli'n medru cynnal ein Cyngerdd Nadolig arferol eleni. Er hyn, mae disgyblion yr ysgol dan arweiniad yr adrannau Cerdd a Chymraeg, wedi creu cyflwyniadau llafar a cherddorol er mwyn cyflwyno Naws y Nadolig yn rhithiol i rieni, y gymuned a chyfeillion yr ysgol. Diolch i'r staff sydd wedi cydlynu'r eitemau. Croeso i chi ymweld â facebook Ysgol y Preseli er mwyn mwynhau'r arlwy. Nadolig Llawen i bawb.

# Ysgol Eglwyswrw

## Diwrnod Plant Mewn Angen

Ar ddydd Gwener y 13eg o Dachwedd, buon yn dathlu penblwydd Pydsi yn 40! Dathlon ni y dydd arbennig gan wisgo fel ein harwyr a gwneud gweithgareddau ffitrwydd i godi arian i elusen Plant Mewn Angen. Roedd pob plentyn wedi cwblhau heriau yn dibynnu ar eu oedran! Er enghraifft, os yn 10 oed, gwneud her fel cadw pêl i fyny am 10 munud!

Dewisodd pawb her gwahanol. Roedd rhai plant wedi dewis neud 'cartwheels', naid ser, burpees, sgipio, ‘penalty shoot-outs’ neu hyd yn oed dala’r 'splits' am 10 munud!

Gwnaeth y plant hyd yn oed herio’r athrawon i gadw cydbwysedd ar un goes! Dywedodd Lowri Davies : "Fy hoff rhan o’r dydd oedd yr heriau, yr her fe wnes i oedd sgorio yn y gôl ac fe wnes i sgorio 25 gol mewn 5 munud!” Ar ddiwedd y dydd, codon ni £291.21. Diolch i bawb am eu cyfraniadau. – gan Megan H



## Diwrnod Hawliau Plant

Dydd Mawrth dwethaf roedd hi’n Ddiwrnod Hawliau Plant! Dysgon sut ddylai’r hawliau yma roi bywydau teg i blant.

Hefyd, fe wnaethon ni lawnsio ein prosiect cyswllt gyda Lesotho. Mae Lesotho yn wlad yn Ne Affrica, ac rydym fel ysgol wedi cysylltu gydag ysgol arall mewn tref o'r enw Leribe.

Gwnaeth Dosbarth Foel Cwm Cerwyn ddysgu sut mae bywyd yn Lesotho, a pa fath o amgylchedd sydd yno. Dysgon llawer am fywyd yn Lesotho, a wnaethon ni hyd yn oed mynd am daith yno, gan ddefnyddio y Sgrin Werdd!

Hefyd, gwnaeth aelodau’r Cyngor Dinasyddiaeth, Bethan, Maisie a Gwyneth greu fideo arbennig yn cyflwyno hawl y mis am fis Tachwedd, sef yr hawl i gael ein trin yn deg. Edrychwn ymlaen i wybod beth yw hawl y mis, mis nesaf! – Gan Manon

# Ysgol y Frenni

## Cwrdd Diolchgarwch

Yn ystod wythnos Hydref 12fed, bu’r disgyblion yn paratoi Gwasanaeth Diolchgarwch Rhithiol ar y thema Gwasanaeth Iechyd i Gymru. Diolch yn fawr i’r disgyblion am eu gwaith graenus ac i Mrs Siân Elin Thomas am baratoi’r gwasanaeth a’r fideo. Casglwyd £405.50 tuag at Unedau Gofal Dwys Llwynhelyg a Glangwili am eu gofal dros gleifion Covid. Diolch i chi gyd am eich cyfraniadau.

## Plant Mewn Angen

Llwyddwyd i godi swm anhygoel o £444.35 ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen, sef Dydd Gwener, Tachwedd 13eg. Gwisgodd y disgyblion ddillad lliwgar a chawsom weithgareddau hwyl o fewn ein swigod. Diolch i Miss Suzanne y gegin am godi £100 wrth greu mygydau Pydsi ar gyfer y staff a’u gwerthu. Diolch iddi hefyd am goginio bisgedi Pydsi ar gyfer y disgyblion a staff.

## Prosiect Cysylltu Dosbarthiadau Dros y Môr




*Cwilt hawliau plant*

Cynhaliwyd Wythnos Byd Eang yn ystod wythnos Tachwedd 16eg. Bu’r dosbarthiadau yn cynnal gweithgareddau ar Lesotho drwy gydol yr wythnos. Lansiwyd Prosiect Cysylltu Dosbarthiadau Dros y Môr ar Ddydd Gwener 20fed o Dachwedd drwy arddangos cyfanwaith ysgol gyfan sef cwilt o hawliau plant a chreu fideo. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i gydweithio gydag Ysgol Mount Royal, Hlotse yn Lesotho. Mae’r disgyblion wedi mwynhau ac elwa’n fawr o gyfathrebu gyda’r ysgol yn ystod yr wythnos ynghyd â dysgu ymadroddion syml iaith Sesotho.

## Ethol Cynghorau

Bu’r disgyblion yn brysur yn paratoi ar gyfer Etholiadau Cynghorau’r flwyddyn. Pleser yw cyhoeddi aelodau’r cynghorau:

**Cyngor Ysgol**: Daisy a Gruffudd, Leisa a Jac, Tillie a Jenson, Ianto a Cadi, Celt a Nel, Owen ac Alaw, Miles, Mali, Finley a Glain.

**Cyngor Eco**: Georgia a Charlie, Madi a Tomos, Aluna ac Elis, Alex a Jacob, Ieuan a Suzanne, Mabli ac Isaac, Esmie a Daniel.

**Cyngor Cymreictod**: Amy a William, Sara a Jac, Hari a Noa, Tallulah a Harry, Gwion a Grug, Ela ac Hedd.

**Cyngor Iechyd a Lles**: Rhun a Megan, Gwennan a Matthew, Katy ac Idris, Elisa a Finley, Elen a Llion, Mali a Mason.

**Cyngor Digidol**: Maisie a William, Caleb a Lia, Ela a Dafydd, Katie a Max, Tristan a Jessica.

# Mwy o alw am atebion i heriau cymdeithasol ac economaidd lleol drwy’r Cyfranddaliadau Cymunedol

Yr wyf wedi bod yn ffodus iawn i fod yn glwm gyda nifer o gymunedau a fu’n dymuno codi cyllid lleol i ddatblygu mentrau cymunedol er mwyn parhad gwasanaethau lleol. Mae gwaith ymchwil nawr yn dangos bod y cyfnod dros y degawd diwethaf wedi gweld cynnydd o ddatblygu mwy o fusnesau a mentrau a reolir gan y gymuned.

Mae'r model cyfranddaliadau cymunedol wedi esblygu'n fawr gyda Cooperative UK, The Plunkett Foundation a Chanolfan Cydweithredol Cymru yn cefnogi cymunedau i gofrestru fel Cymdeithasau Budd Cymunedol a all gyhoeddi cyfranddaliadau yn y gymuned i gychwyn menter leol.

104,203 yn codi £155miliwn

Mae ymchwil ddiweddar a ariannwyd gan y sefydliadau Power to Change a Community Shares Scotland wedi datgan ers 2012, yn y DU, codwyd £155 miliwn gan 104,203 o bobl yn cefnogi mwy na 440 o fusnesau cymunedol. Mae'r ymchwil newydd yn dangos yr effaith sylweddol y mae cyfranddaliadau cymunedol wedi'i gael ar fusnesau a chymunedau ledled Cymru a'r DU.

Mae deall marchnad cyfranddaliadau cymunedol, sy'n aeddfedu bellach, yn hanfodol a dyma'r adroddiad mwyaf cynhwysfawr a gyhoeddwyd erioed ar y sector cyfranddaliadau cymunedol. Mae'r adroddiad yn canfod:

• Er 2012, codwyd £155m gan 104,203 o bobl i gefnogi mwy na 440 o fusnesau.

• Mae 92% o fusnesau sydd wedi codi cyllid gyda chyfranddaliadau cymunedol yn dal i fasnachu.

• Dywed 85% o fusnesau bod rhedeg cynnig cyfranddaliadau wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad ariannol.

• Mae 80% o bobl yn buddsoddi mewn cynigion cyfranddaliadau cymunedol oherwydd buddion cymdeithasol neu amgylcheddol ehangach y sefydliad - nododd llai nag 20% y gobaith o enillion ariannol fel rheswm dros fuddsoddi.

• Am bob £1 a fuddsoddir mewn cyfranddaliadau cymunedol, mae £1.18 yn cael ei ysgogi trwy grantiau, benthyciadau a buddsoddiad sefydliadol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am yr adroddiad ymchwil ar www.uk.coop/comshares

**Canolfan Hermon**



Yn Sir Benfro mae hanes PLANED o gefnogi cynigion cyfranddaliadau cymunedol wedi'i ddatblygu'n dda gydag ymgyrch gymunedol 2007 i brynu'r hen ysgol yn Hermon ac agor y cwmni cydweithredol neuadd gymunedol o'r enw Canolfan Hermon.

Cyfunodd 151 o bentrefwyr eu cronfeydd cyfranddaliadau i brynu'r hen adeilad Fictoraidd ac agor canolfan adnoddau newydd sydd bellach yn gartref i weithgareddau cymunedol a busnesau lleol. Cyflogir dwsin o bobl ar y safle. Cefnogir cyflogaeth leol a chynigir man cyfarfod cymunedol lleol.

Yna gyda 4CG Cyf yn Aberteifi fe ddaeth criw o bobol ynghyd i brynu hen safle Cop Clunderwen ac agor safle parcio canol dre a nifer o adeiladau i’w rhenti.

BWYDYDD ANIFEILIAID
BWLCHYGROES

*Masnachwyr Amaethyddol*

**Bwyd Anifeiliaid ~ Ffensio ~ Hadau**
**Gweryd ~ Popeth ar gyfer y fferm**

**Am bris cystadleuol,**
**ffoniwch 01239 698226**

FFENSIO PRESELI

EUROS THOMAS
Pencnwc Mawr, Eglwyswrw
Sir Benfro
Mob.: 07855 448093

Yna prynu'r hen gwrt a'r hen orsaf heddlu. Gwelwyd dros 500 o bobol yn ymuno yn y fenter ac yn derbyn 3% o ddifidend bob blwyddyn ers 2012.




*Tafarn Sinc yn Rhos-y bwlch – codi £410,000*

Bu PLANED yn allweddol wrth gefnogi prynu Tafarn Sinc ym mhentref Rhos-y-bwlch ger Maenclochog. Mae'r adeilad yn dyddio nôl i'r 1870au. Bu PLANED yn cefnogi gyda'r cynnig cyfranddaliadau arloesol i weld a oedd galw i gynnal y busnes fel tafarn dan berchnogaeth gymunedol. O fewn chwe wythnos roedd dros £100,000 wedi'i godi a phan ddaeth y cynnig cyfranddaliadau i ben, codwyd £410,000 o fenthyca cymheiriaid cymunedol a chynnig cyfranddaliadau. Prynwyd y dafarn ac mae bellach yn cael ei rhedeg fel menter gymunedol sy'n eiddo i dros 500 o gyfranddalwyr.

**Mwy o ymholiadau**

Yn ystod 2020 derbyniodd PLANED llawer mwy o ymholiadau ynghylch sefydlu cwmnïau cynnig cyfranddaliadau cymunedol yn Sir Benfro, yn amrywio o dir ar gyfer tai, tir ar gyfer rhandiroedd, siopau cymunedol, safleoedd claddu gwyrdd cymunedol, cydweithfeydd artistiaid, gwarchod adeiladau treftadaeth, tyrbinau gwynt cymunedol a llawer o syniadau menter gymdeithasol eraill. Mae effaith enbyd COVID-19 a gofynion cloi parhaus wedi gyrru pobl a chymunedau i ailbrisio pa wasanaethau y gall pobl leol a mentrau cymdeithasol eu cyflawni a'u darparu.



*Angen £60,000 arall i brynu'r Hydd Gwyn yn Lland'och*

Mae'r ymgyrch i brynu tafarn gymunedol yn Llandudoch – Yr Hydd Gwyn, wedi bod yn dawel dros y cyfnod cloi cyntaf ond yn ystod mis Awst mae'r ymgyrch wedi ail-lansio ac mae dros £200,000 wedi'i sicrhau hyd yn hyn. Mae pwyllgor yr ymgyrch wedi llunio cynllun ariannol a busnes manwl ac yn awr yn ceisio'r £60,000 terfynol i brynu'r adeilad ac ailagor y dafarn gymunedol. Mae manylion ychwanegol am yr ymgyrch ar www.whci.cymru.

Ar hyn o bryd mae'r Prosiect Cyfranddaliadau Cymunedol o fewn PLANED yn cydlynu Rhwydwaith Tafarndai Cymunedol mewn Partneriaeth ag Uned Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru yng Nghanolfan Cydweithredol Cymru. Bydd y rhwydwaith newydd hwn yn caniatáu i dafarndai cymunedol rannu eu profiadau .

Cyng Cris Tomos

# Preseli ar y brig



*Mike Davies ar fin ymddeol*

Clod i Ysgol y Preseli yw derbyn canmoliaeth y 'Sunday Times School Guide' wrth gael ei dyfarnu yn 'Ysgol Uwchradd Orau'r Ddegawd yng Nghymru'.

"Dyma goron ar ddegwd o waith caled gan holl dîm Ysgol y Preseli, yn lywodraethwyr, tîm arwain, staff, disgyblion, rhieni, a'r gymuned gyfan" meddai'r pennaeth, Mike Davies, fydd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor.

Mae Parent Power yn creu rhestr o ddwy fil o ysgolion gorau Prydain ac ar y rhestr honno me Ysgol y Preseli wedi cyrraedd rhif 186 – maen wedi codi 300 o safleoedd er 2012 yn ystod teyrnasiad Mike Davies.

Mae'r arwyddair 'Cofia Ddysgu Byw' mor wir ag erioed.

Arthur Morgan
GWASANAETH SCANIO
SCANIO
DEFAID A GWARTHEG
ARTHUR MORGAN
07721 786 292
IFAN MORGAN
07964 197 836
01239 615 085
Pencefen, Mwnt, Aberteifi
Ceredigion, SA43 1QB

# Mentro Mas Draw Mewn Busnes – Garej Penfro





Garej Penfro fel y mae heddiw – deugain mlynedd a mwy yn ddiweddarach

*Yn ystod y misoedd diwethaf wrth sôn am ddirywiad ac enciliad y Gymraeg yn y fro soniwyd droeon ein bod yn cael ein gwaedu o'n pobl ifanc. Maen nhw'n gadael, yn mynd i golegau a'u penodi i swyddi breision mewn gwledydd eraill fyth i ddychwelyd. Tra bo yna wirionedd yn hynny gwnaed gormod o'r mater fel esgus dros yr anawsterau i gynnal y Gymraeg. Mae mewnfudo yn fwy o broblem nac allfudo.*

*Mae'n naturiol i ganran o ieuenctid adael fel sydd wedi digwydd erioed boed i'r gweithfeydd neu'r dinasoedd fel sydd wedi digwydd erioed. Mae llawer yn cynnig cyfraniad gwiw yn eu meysydd ar sail y Cymreictod y magwyd nhw yn rhan ohono. Ond mae yna lawer wedi dangos mentergarwch yn eu cynefin hefyd ac wedi ffurfio busnesau llwyddiannus sydd wedi cynnig gwasanaeth gwerthfawr yn eu cymunedau. Nid ydym yn gwneud digon i ddathlu hynny.*

*Yn ystod y misoedd nesaf gobeithir tynnu sylw at nifer o'r busnesau hynny. Enghraifft glodwiw o sefydlu busnes lleol teuluol yw Garej Penfro ar gyffordd ger Eglwyswrw. Sefydlwyd y busnes yn 1975. Mae'r hanes wedi'i groniclo gan Brian Llewelyn yn ei gyfrol 'Petrol, Pyst a Peints'. Dyma beth o'r hanes:*




"Yn garej Penfro, neu Crosswell Turn, fel y'i hadwaenir gan bobl leol y byddwn yn prynu petrol a disel ac fe fyddwn yn talu'r cownt yn fisol. Mr a Mrs Jac Evans o Gaerdydd oedd y perchnogion – Mrs Evans yn rhedeg y busnes a'i gŵr yng Nghaerdydd yn ystod yr wythnos yn gwneud gwaith electronig. Ryw fore, roedd Mrs Evans moyn gair tawel gyda fi. Dyma hi'n gofyn a fydde gen i ddiddordeb mewn prynu'r busnes.

### Atgyweirio a weldo

Dyma beth oedd cyfle da. Lle perffaith, lleoliad ar ddwy brif heol, yn edrych draw ar y Preseli a rhyw bum milltir o'r môr. Roedd y dair ferch yn Ysgol y Preseli, a bydde angen gwaith ar y dair yn fuan. Gwerthu petrol a disel, atgyweirio ceir a Land Rovers, a sied arall yn gwneud gwaith weldo – dyna oedd y garej i ichi. Roedd yno hefyd siop fach – lle i dalu am y petrol a chael prynu ffags, baco,losin a hufen ia.

Roedd hi'n Steddfod Aberteifi ar y pryd, ac roedd gen i barti merched yn adrodd yno ar y nos Wener – a dyna'r noson yr o'n i fod fynd i weld Mr a Mrs Evans i drafod y prynu. Fe wnes fynd â'r parti adrodd i'r Steddfod, cael un practis a'u gadael hwy yno. Nôl a fi i Crosswell Turn i gwrdd â'r gwerthwyr. I mewn i'r byngalo a chael gweld faint oedd y lle yn gwerthu o nwyddau'r flwyddyn. Roedd yno bedwar o fechgyn ac un ferch yn gweithio. Y pris roeddent yn ei ofyn am y lle oedd trigain mil a saith mil arll am y stoc. Wnes i ddim aros i feddwl – fe ddwedais yn syth fy mod yn barod i brynu.

### Nôl i'r Steddfod

Fe gafodd y ddau gymaint o sioc o benderfyniad mor sydyn nes bod yn rhaid i'r ddau gael bod ar eu pennau eu hunain am ryw hanner awr i feddwl a thrafod y peth. Pan ddaethant yn ôl i'r stafell roeddent yn falch iawn, ond nid oeddwn i fod i ddweud dim am y gwerthiant wrth neb hyd y Llun canlynol. Fe wnes i fynd nôl i'r Steddfod, ac roeddwn yn teimlo'n fwy balch na phetawn i wedi ennill unrhyw gystadleuaeth yno. Teimlwn fel mynd i fyny i'r llwyfan a chyhoeddi fy mod yn berchen ar Crosswell Turn.

Cadw dy gyfrinach – mae cyfaill gan dy gyfaill. Ond dyw cyfrinach ddim gwergth dim heb ddweud wrth rywun, ac wedyn ei siarsio – 'cofia paid dweud wrth neb'. Dod i lawr i'r ddaear bore Llun a dechrau chwilio am arian. Roedd gennym Fron Drygarn i'w gwerthu – roedd hwnnw wedi costi deg mil saith cant rai blynyddoedd yn ôl, ond bellach roedd yn werth tair mil ar hugain.

### Lloyds a Barclays

Yn Banc Lloyds yn Aberteifi yr oedd y cownt ac roedd y rheolwr oedd yn dipyn o ffrind i mi newydd ymddeol. Dyn swrth ac yn swno fel pe bai yn un creulon iawn oedd e, ond fel gyda cŵn ar adegau, rhaid gwylio'r un sy'n edrych yn ffein iawn ac nid yr un cas. Ac fel'ny fuodd hi yma. Fe ddaeth y rheolwr newydd – gŵr ffein iawn a gwên fach slei ar ei wyneb, gan addo'r cyfan. Ond pan oedd hi'n dod yn amser cyflawni, fe fydde fe'n dweud 'Na'.

Croesi'r hewl a mynd i fyny hanner can llath i Fanc Barclays. Cyfarfod â'r rheolwr, ac egluro'r sefyllfa a'r ateb parod yn dŵad, 'Clatsha mlaen â hi a phob lwc'. Mae asgwrn cefen yn beth da, a dyna oedd gan reolwr Barclays. Shell oedd yn cyflenwi'r petrol a'r disel ac roedd yn rhaid gwneud contract newydd am y pum mlynedd nesaf.

Dyna'r cyfnod pan oedd y cwmnioedd hyn yn hel iawn â'u harian – fe fyddem yn talu am wahanol bethau fel pwmps newydd, tanciau dal yr olew o dan ddaear a'r cyfan yn dod i dipyn o werth. Mae pethau wedi newid – erbyn

heddiw ŷn ni'n ffodus cael cwmni cyflenwi.

**Tom Pencnwc**

Gwerthwyd Fron Drigarn am yr arian yr oedden yn gofyn amdano, ond fe fu'n rhaid aros amdano. Symudwyd i Benfro ym Medi 1978, a dyna pryd y dechreuodd yr aildrefnu. Symudwyd y garej atgyweirio ceir i fyny i'r sied yn y cefen. Codwyd siop newydd ac fe ddaeth yr hen garej a'r stordy yn siop hefyd. Fe fuon yn ffodus iawn o gymydog caredig sef Tom Thomas, Pencnwc.

Roedd angen lle i gadw'r pyst, iete a'r weiar ffenso – rhaid oedd cael iard. Cae pori oedd yn ffinio â'r garej a Tom oedd y perchennog. Rhaid oedd gofyn a fydde fe'n fodlon gwerthu rhan ohono. Ateb syth – bydde, a'r pris yn isel iawn. Bydde llawer wedi gwrthod, neu wedi codi crocbris amdano.

**Nwyddau cefen gwlad**

Dyma fynd ati i glirio'r pridd a llenwi nôl â cherrig ac yna gosod tarmac ar yr wyneb. Wedi gorffen, ac wedi prynu dwy ran arall o'r cae, roedd gyda ni iard fawr ardderchog – digon o le i'r lorïau ddod i mewn a throi a digon o le i storio'r nwyddau. Prynwyd silffoedd newydd i'w gosod drwy'r siop a phenderfynwyd prynu'r groseri gan gwmni V.G., oedd yn delifro yn wythnosol. Roedd y siop yn llawn mewn bach o amser – dillad gwaith, sgidie, nwyddau haearn, joints ar gyfer pibellu dŵr, y rhan fwyaf o bethau oedd eu hangen yng ngefen gwlad.

Yn diweddarach fe gelon drwydded i werthu gwinoedd a chwrw. Byddai Brenda yn gweithio yn y siop, ac fe fydde'r merched yno ar ôl dod adref o'r ysgol ac ar benwythnosau. Roedd y siop ar agor saith niwrnod yr wythnos a'r unig ddiwrnod fydden ni'n cau oedd dydd Nadolig. Pris galwn o betrol yn 1978 oedd 76.5p a 50% o hwnnw yn dreth. Heddiw mae pris galwn yn £6.08 thua 75% yn dreth. Roedd llwyth llawn, sef wyth mil o alwyni, yn costi chwe mil i'w brynu. Heddiw, mae'r un llwyth yn costi pedwar deg wyth mil. Sdim rhyfedd fod rhan fwyaf o orsafoedd petrol yn y wlad wedi gorffen.

**Yn yr eira**

Mae sefyllfa'r siop groser wedi newid llawer hefyd. Mynd i'r archfarchnadoedd mawr yn y dref yw'r arferiad nawr a rhaid dweud, mae'r dewis mor dda, y parcio'n gyfleus ac am ddim. Mae siopau fel ein un ni wedi dod y siop cymorth cyntaf – lle i fynd iddo i chwilio am y neges sydd wedi'i anghofio yn y dre. Ac wedyn rhaid cofio amser yrn eira pan fydd pobl yn methu mynd i'r dre – da o beth wedyn fod ambell i siop ar ôl yn y wlad.

Cofiaf eira mawr un flwyddyn, a'r siop yn brysur iawn a'r rhan fwyaf yn dweud pa mor dda ac mor gyfleus oedd ein siop ni ac na fydden nhw byth yn anghofio ein caredigrwydd. Rai diwrnodau yn ddiweddarach, dyma berson yn dod i mewn i'r siop eisiau prynu bwyd i'r gath, a dyma fe'n dweud, 'Nice to see the thaw setting in, I can buy my cat food in Tesco Carmarthen again'. Mae eisiau croen tew iawn ar adegau".

*Mae'r llyfr a gyhoeddwyd gan wasg Carreg Gwalch yn 2013 yn dal ar werth am £5. A doedd prynu Garej Penfro ddim yn ddigon. Prynwyd y Precelly Hotel ym mhentref Rhos-y-bwlch wedyn a'i ail-fedyddio'n Tafarn Sinc. Yr hanes hwnnw i ddod eto.*



*Y nwyddau chwaethus y tu fewn erbyn heddiw wedi'u gosod yn chwaethus*



*Yr iard gefn yn storio'r holl offer amaethyddol*

CANOLFAN EURONICS
ELECTROLUX
Peiriannau Golchi a Golchi Llestri, Rhewgelloedd ac Oergelloedd
HOTPOINT
LEC
BELLING
CLUDIANT AM DDIM
Ffyrnau Trydan wedi'u hadnewyddu
TRICITY BENDIX
*Gallwn gystadlu'n fwy ffafriol na'r siopau mawr. Dewch draw i flasu'r dewis helaeth i'r cartref neu'r busnes.*
☎ 01437 532325 J. HARRIES MAENCLOCHOG

# PORI 'MYSG Y GEIRIE yng nghwmni Rachel

## Dai'r Bardd o Lanfyrnach a hanes yr asyn

Pwy oedd Daniel James neu Dai Bardd o Lanfyrnach? Tybed oes un o ddarllenwyr Clebran ag unrhyw wybodaeth am dano. O ddarllen y gerdd isod 'Marwnad yr Asyn' a gyfansoddwyd tua 1888 mae'n amlwg ei fod yn dipyn o grefftwr. Lleolir y gerdd yn Llainterfyn ar gyrion Glandŵr. Mae'r hen le wedi diflannu bellach er bod hen glowty'r lle wedi'i droi yn dŷ.

Mae'r mesur a ddefnyddir gan y bardd yn gywrain ac yn gwneud defnydd helaeth o odlau ac yn un sy'n ein hatgoffa o'r canu Plygain ac hefyd o arddull y baledwr. (Gyda llaw mae un emyn yn Caneuon Ffydd o'r un mesur sef Ascalon rhif 24).

**Ben Bowen**

Mae'r diweddar Ben Bowen Thomas yn ei lyfr Drych y Baledwr yn cynnwys baled ar y mesur hwn o waith Edward Owens, Rhydowen sy'n gwrthwynebu'r mesur i ryddfreinio'r pabyddion a ddaeth i rym yn ugeiniau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn anffodus 'dyw'r awdur ddim yn manylu ar leoliad Rhydowen, a hwyrach mai Rhydowen Sir Aberteifi a geir yma.

Yn ogystal â'r mesur mae iaith Daniel James hefyd yn gyfoethog. Faint ohonom tybed sy'n gyfarwydd â'r gair 'llechres' –"Ar lechres hanesiaeth" a geir yn y pennill olaf ond un? Mae Geiriadur Cymraeg Gomer yn rhoi'r esboniad 'rhestr mewn trefn e.e. rhestr o lawysgrifau yn nhrefn amser'. Yn Saesneg register neu inventory. Ar lechi byddai rhai ohonom yn 'sgrifennu yn nyddiau cynnar ein haddysg! Ac mae arddull y bardd wrth osod y llwyfan fel petai ar gyfer y weithred ysgeler yn ddramatig iawn : "Yr heulwen fachludodd, y lloerwen a giliodd/ Ymguddiodd pob seren fach dlos."

**Clos y Gernos**

Pwy bynnag oedd Dai Bardd yn ddi-gwestiwn roedd e'n dipyn o fardd. Os oes unrhyw wybodaeth gennych amdano fe fyddem yn falch iawn o glywed. Mae ganddo gerdd hynod arall dan y teitl "Clonc Clôs y Gernos" sy'n ddiddorol iawn a hwyrach y ceir cyfle i gynnwys hon yn y dyfodol. Rwy'n ddiolchgar iawn i Esme Williams, Glandŵr am y cerddi a fu ym meddiant ei theulu ers amser hir.

**Marwnad Yr Asyn**

(a lofruddiwyd ar faes Llainterfyn, Mai 18fed, 1888)

Efallai gyfeillion na wnaeth y prydyddion
Ddim marwnad i asyn o'r bla'n,
Ac eto rwy'n credu fod bywyd y donkey
Yn hollol deilyngu cael cân.

Mae er wedi marw, mor uchel yn galw
Nes tynnu ein sylw i gyd,
Ei waed sydd yn gwaeddu o'r beddrod am gosbi
A dial ei gam yn y byd.

Tu mewn i annedd-dŷ Llainterfyn 'roedd teulu
Yn brysur gynllunio ynghyd
Pa sut i roi terfyn ar fywyd yr asyn
A'i hyrddio ar amrant o'r byd.

Mewn cadair 'roedd Hanna mor ffals a Delila,
Neu fel yr hen Jesebel gynt;
Joe, Johnie a Poli a'r gweddill o'r teulu
Yn taflu cynlluniau i'r gwynt.

"Wel wir", meddai Johnie, "Mae'r dryll wedi'i brynu,
Gwell fyddai ei gyrchu i'r bwrdd,
Ei grombil a lanwaf o'r ergyd rhagoraf
A Joe gaiff ei gollwng i ffwrdd".

Yr asyn diniwed mor wylaidd yn cerdded
Nes braidd gellid clywed ei droed;
Yn ddyfal y chwiliai yr eneth a garai
Mor slei ag un carwr erioed.

Tra'r hwyrddydd yn gwisgo ei fantell amdano
A'r caddug o amgylch yn cau,
A phawb yn ddigyffro mewn cwsg yn gorffwyso
Nos Sadwrn ddeunawfed o Fai.

Yr heulwen fachludodd, y lloerwen a giliodd,
Ymguddiodd pob seren fach dlos,
Rhag gweld yr olygfa a mawredd y mwrdro
Gyflawnwyd dan lenni y nos.

Ar hyn yr ymdorrai fel mil o daranau
Sŵn ergyd o lawdddryll 'r hen Joe,
Nes gyrru'r gymdogaeth i ddychryn ac alaeth,
Yr asyn tan glwyfau oedd o.

Y truan ymgripiai, tuag adref ymlusgai
Tan boenai arteithiol ei loes,
Bu felly hyd drannoeth, am ddeg bore Saboth
Bu farw, pwy draetha ei oes?

Mae enw llofruddiaeth uwchben ei farwolaeth,
Mae'n werth i ddynoliaeth on'd yw?
A gwarth i bob Cymro tu mewn i Sir Benfro
Fod yno'r fath adyn yn byw.

**Ivor Rees a'i Feibion**

CONTRACTWR TRYDANOL

Hefyd :

Gwerthiant a Gwasanaeth o Offerynnau Trydanol
Goleuadau Diogelwch a Larwm Lleidr

**Y Felin, Maenclochog, Clunderwen**
**Sir Benfro. SA66 7JY**

NICEIC APPROVED

**Ffôn : 01437 532326**
**Symudol : 0831 621559**

Hen lannerch Llainterfyn wyt
dduaf ysmotyn,
A'th ruddiau orchuddiwyd â gwaed,
Fe bery'th lofruddiaeth ar
lechres hanesiaeth
Tra byddo'r Gymraeg ar ei thraed.


Tra byddo Moel Cerwyn yn gwisgo
ei glogyn
A dyrchu ei goryn i'r nen,
Bydd enw Joe Shincyn a
theulu Llainterfyn
Yn duo ein hoff Gymru Wen.

*Daniel James*

## Hanes yr Hinsawdd 4:
# Sglefrio ar Windermere mewn oes a fu



Uchod: Llun o dyrfa yn sglefrio ar Windermere ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac ar y graff isod amcangyfrif o barhad yr iâ ar Windermere rhwng 1865 a 1900. Dengys y symbolau'r gaeafau pan yr oedd yna gyfeiriad yn y papur lleol at sglefrio ar y llyn.




Ar wal siop tsips yn nhref Windermere, y mae yna gyfres o hen luniau i ddiddanu'r cwsmeriaid sy'n aros eu tro. Yn eu mysg y mae yna nifer sy'n dangos tyrfa o bobl yn sglefrio ar y llyn yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif bymtheg.

### Pythefnos o aros

Rhaid felly gofyn beth oedd yn hynod am y cyfnod hwn gan mai prin yw'r cyfleoedd a geir erbyn hyn i fentro ar yr iâ. Yn ôl traddodiad, rhaid aros am bron i bythefnos o dywydd caled cyn mentro ymhell o'r lan. Rhaid felly oedd gofyn a oedd gaeafau oes Fictoria yn llawer oerach trwy edrych ar y berthynas rhwng parhad yr iâ a chyflwr y North Atlantic Oscillation Index.

Fel y nodais yn fy erthygl 'Gaeaf oer neu aeaf mwyn', sylfaen yr indecs yw'r graddiant yng ngwasgedd yr atmosffer rhwng safle yng Ngwlad yr Iâ ac un arall ym Mhortiwgal. Pan mae'r indecs yn bositif mae'r gwynt yn chwythu o'r gorllewin ac mae'r gaeaf yn fwyn. Pan mae'r indecs yn negyddol y mae'r gwynt yn chwythu o'r dwyrain ac mae'r gaeaf yn oer.

### Mesuriadau yn magu dwst

Gan fod yna gyfres hir o'r mesuriadau hyn ar gael, y cam nesaf oedd dod o hyd i fesuriadau hanesyddol o barhad yr iâ ar Windermere. Yn ffodus yr oedd yna ddigon o fesuriadau ar gael a hynny mewn cyfrol oedd yn magu dwst yn labordy'r Freshwater Biological Association. Amcan gwreiddiol y mesuriadau oedd cadw golwg ar dymheredd y dŵr ond, wrth lwc, yr oedd yr arsylwir hefyd wedi nodi'r dyddiau pan oedd yna iâ ar wyneb y llyn

Dyma felly 'allwedd' i agor y drws i'r gorffennol ond nid cyn defnyddio dull ystadegol i fesur y cydberthynas (correlation) rhwng cyflwr y llyn a'r indecs rhanbarthol. Y canlyniad oedd creu hafaliad mathemategol a oedd yn ddigon pwerus i ôl-ddarogan (hindcast) parhad yr iâ ar y llyn. Dengys y graff uchod parhad tebygol yr iâ ym mhob gaeaf rhwng 1965 a 1900. Wedi gweld fod yna newid sylweddol, y dasg nesaf oedd profi fod yr amcangyfrif yn wir.

### Papurau lleol

Yr unig ffordd i wneud hyn oedd pori trwy hen gopïau o'r papur lleol i chwilio am ddisgrifiadau o dyrfa yn sglefrio ar y llyn. Da felly oedd gweld fod yna gytundeb perffaith rhwng y ffigyrau damcaniaethol a'r disgrifiadau a geid yn y papur. Yn ôl y Westmorland Gazette, cynhaliwyd gwyliau sglefrio ym 1870, 1879, 1889 a 1895 ac yr oedd yna luniau i groniclo'r hwyl a gaed.

Diddorol felly fyddai darganfod beth oedd y sefyllfa wrth odre'r Preseli yn y gaeafau caled hyn. Efallai fod gan rywun gofnod o ddefaid ar goll ar y mynydd neu gyfeiriad perthnasol yn y Tivy Side?

Os edrychir yn fanwl ar y graff, gwelir fod y syniad lleol bod rhaid aros am bythefnos o dywydd rhewllyd cyn mentro ar draws y llyn yn llygad ei le. Ym 1878, mentrwyd trefnu gŵyl sglefrio mewn llai na phythefnos ond, fel arfer, rhaid oedd aros am wythnos arall cyn i'r iâ gryfhau.

### Perthyn i'r gorffennol

I'r rhai sy'n dal i honni nad yw'r byd yn cynhesu, perthnasol yw nodi mai rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol i'w sglefrio ar Windermere. Rhwng 1989 a 1995 ni welwyd dim iâ ar y llyn ac, ers troad y mileniwm, yr unig flwyddyn rewllyd oedd 2010. Y flwyddyn honno, yr oedd yr indecs rhanbarthol yn fwy negyddol nag erioed o'r blaen ond yr oedd y gogwydd at fyd cynnes wedi llethu'r duedd oer.

# Atgofion Shani Las o'i chartre yn Llanarthne



"Dwi'n cofio'r diwrnod cesum i fy newis a fy nghodi ar gyfer yr antur rhyfeddaf yn ystod y milflwyddiant. Roeddwn i'n gorwedd ar dir Tycwta o dan Carn Menyn. Leonard John, y tirfeddianwr, sydd ar y chwith, a Mansel Young o gwmni'r Brodyr Young, Llandysilio, sy'n cyfarwyddo'r gwaith o fy nghodi'n ofalus," meddai Shani Las.

"Fe ddaeth coiled o drigolion Mynachlog-ddu a'r Cynghorydd Sir Lyn Davies i ddymuno'n dda i fi ar fy siwrne wedi i mi ddychwelyd o Hwlffordd a chael fy nghlymu'n holbidag ar wely o goed," cofia Shani.

*Fe gofiwch i rifyn mis Medi dynnu sylw at ugeinfed pen-blwydd yr ymdrech aflwyddiannus i lusgo un o gerrig gleision y Preselau yr holl ffordd i Gôr y Cewri mewn ymgais i brofi mai dyna a wnaed dros 2,000 o flynyddoedd nôl i godi teml.*

*Ar ôl taith helbulus y bu'n rhaid rhoi'r gorau iddi heb hyd yn oed adael Sir Benfro mae Shani Las bellach wedi cartrefu yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn Llanarthne. Dyma hi'n parhau â'i hatgofion wrth iddi ymddiddan liw nos gan sôn am drigolion Oes y Cerrig:*



Bydde rhai ohonyn nhw'n eitha soffistigedig, yn ôl eu safone nhw. Bydden nhw'n gwisgo mwclis ac addurniade cerrig. Dwi'n cofio fel y bydde'r rhai mwyaf llafar o'u plith yn adrodd straeon o gwmpas y tân gyda'r nos wedi'r gloddesta. Hanes boddi Cantre'r Gwaelod oedd un ohonyn nhw. Cyfoeth pennaf y bobloedd lled dywyll yr olwg hyn o'dd y cellystr bychen fydden nhw wedi'u naddu a'u defnyddio o dipyn i beth ar gyfer dullie amrwd o amaethu. Wêdd perchnogi'r arfe hyn yn rhoi statws uwch na'r cyffredin i'w perchennog. Galla i weld nhw nawr yn symud ar hyd y llethre wedi'u gorchuddio bron gan grwyn anifeilied nes nad oeddech yn siŵr p'un ai dyn neu anifail o'dd yn symud.

Ie, yr hyn dwi'n ei gofio'n bennaf yw gweld fflame'r tane'n goleuo'r ffurfafen gyda'r nos a'r sŵn gorfoledd a glywid



*Yn eu dillad o grwyn*

pan oedd yna ranshin o dân wedi'i gynne. Bydde rhaid i rywrai ei fwydo'n gyson â chwêd. Wêdd hynny'n ddyletswydd bwysig. Am eu bod wedi dysgu'r grefft o naddu cerrig mân pigfain yn erbyn ei gilydd i greu gwreichionyn y rhoddent gymaint o barch i gerrig mwy. Credent fod galluoedd meini fel fy mrodyr a chwiorydd gymaint â hynny'n fwy. Bron bod y brychni arnom yn cael ei ystyried yn nod cyfrin.

**Geirie bach hoyw**

Ie, dwi'n gweld dy fod ti'n dylyfu gên. Ma' dy synnwyr o hanes mor brin â'th allu i ganolbwyntio. Wyt ti am wybod am hanes mwy diweddar y medru di uniaethu ag ef yn uniongyrchol mae'n siŵr? Popeth yn iawn. Ond ti'n gweld ma' meddwl am fflame'r tane cynnar 'na yn fy atgoffa o'r modd y bydde pobloedd cynnar yn gweld ysbrydion ac ellyllod yn whare whic whiw â nhw ym mhatryme'r fflam. Ystyrient fod yna eneidie'n ca'l eu llosgi wrth i'r parddu godi i'r awyr. Roedd yna eirie bach o'dd yn hoyw yn eu geneue wrth iddyn nhw wichal tra cylchynent y tân.

Wyt ti wrandäwr mwyn yn fwy o berson gwres canolog na gwres tân agored. Ni chafodd dy ddychymyg erioed ei gyffroi gan fflame gwynias. Ni fuest ti'n dawnsio o amgylch yr un goelcerth yn efelychu ystumie'r fflame siawns. Ti sydd ar dy golled cred ti fi. Cer am

dro sydyn ac fe gei stori arall pan ddeui nôl fydd yn siŵr o'th ddifyrru. Cei stori gyfoes.

Wel, nawr te, wyt ti ishe clywed shwt ddes i fan hyn? Wyt ti wedi clywed tipyn amdana i yn fy nghynefin yn barod. Falle dy fod ti'n meddwl y bydde'n well 'da fi fod nôl fan ni yn ôl fel dwi'n browlan gered? Ma' hi'n galler bod yn unig fan hyn cofia, yn enwedig pan fydd cannoedd o bobl yn mynd a dod heibio i fi trwy'r dydd gwyn gyda'u cleber diddiwedd. Hawyr bach, ma' fe'n ddigon i garreg fach i ddanto, glei. Sdim pleser mewn bod ar goll yng nghanol pobol. 'Na pam dwi wrth fy modd yn yr orie mân ar noson glir fel heno â'r sêr tragwyddol uwch fy mhen. Dwi'n un â'r ffurfafen ti'n gweld. Sdim un mwstwr i'w deimlo 'ma.

### Sylw a maldod

Ie, popeth yn iawn. Dwi'n dy weld di'n dechre gwingo. Wyt ti bown o fod ishe clywed y stori? Wel, fel hyn y buodd hi. Sawl blwyddyn nôl nawr, ar droad y milflwyddiant, daeth dou fachan i seso arna i'n jogel. Fe fuon nhw'n fy mesur i ac yn fy mhocran i fan hyn a fan draw. Wêdd dim ots 'da fi ga'l tamed o sylw a maldod. Fyddet ti r'un fath shwr o fod. Popeth yn iawn.

Ond mewn sbel wedyn dyma haid o ddynion yn sefyll o'n amgylch i, peiriant mowr yn fy nghodi o'r pridd a rhyw dderyn mowr yn whyrnu uwch fy mhen. Dyma nhw'n fy nghlymu'n holbidag a bant â fi trwy'r awyr yn hongian wrth y deryn mowr 'ma. Do wir.

Myn diain i, siwrne fer o'dd hi. Fe welwn bob dim o bersbectif gwahanol fry uwchben pob dim. Rhaid cyfaddef' ei fod e'n deimlad eitha' braf 'fyd er fy mod i'n teimlo 'chydig bach o'r bendro ar sbele. Fe ges i fy ngollwng lawr yn rhy glou os rhywbeth a finne'n dechre cyfarwyddo â'r profiad. Wên i'n teimlo'n eitha diogel yn hongian yn yr awyr. Gesum i fy rhoi mewn horwth fowr o sied wedyn a fan ni y bues i am ddiwrnode. Digon diflas o'dd hi yn y tywyllwch dudew, cofia.

### Rhaff ac estyll

Weithie, bydde'r drws yn agor am getyn a finne'n ca'l fy nhynnu mas. Gesum i fy mesur droeon a'n nhroi pob ffordd. Fe'm rhoddwyd ar estyll o bren un diwrnod a'n nhynnu i bob cyfeiriad wedyn. Rhoddwyd rhaff amdanaf a'i chlymu wrth yr estyll. Gosodwyd rhaffe wrth yr estyll wedyn a buodd haid o ddynion wrthi'n fy nhynnu gyda



*Y mwclis am y gwddf a'r eneidiau i'w gweld yn fflamau'r tân*

chymorth polion. Fe fyddwn i'n symud yn ddigon hawdd ar brydie ond bryd arall prin y byddwn i'n cyffro. Weda i ddim fy mod i'n stwbwrn. Ond 'na le fydden nhw wedyn yn fy nghlymu mewn ffordd wahanol ac yn fy nhynnu i wahanol gyfeiriade. Rhoddwyd matie o dan yr estyll wedyn i weld a fydde'r symud yn haws. Wedd tipyn o duchan yn digwydd rhwng y 'sbeidie mynych o oedi, cred ti fi.

Er fy mod i'n gwrando ar yr holl drafod a'r siarad, rhwng y rhai o'dd yn edrych ar y clymu a'r tynnu yn benna', do'dd gen i fawr o syniad beth o'dd diben hyn i gyd na beth wedd yn mynd i ddigwydd nesa'. Gorwedd yn y sied dywyll yn disgwyl i'r dryse agor fydden i. O'n i'n teimlo fel bysen i'n mogi yn yr hen sied a finne wedi arfer â'r gwynt yn fy ngoglis, y glaw yn golchi drosto i a'r houl yn ei dro yn fy sychu wedyn.

Y disgwyl o'dd waethaf. Wên i'n gwbod bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd er ddim yn gwbod beth. Pob tro o'dd y drws yn agor fy ngobeth o'dd na fydde rhaid i fi fynd nôl mewn trwyddo 'to. Falle ele diwrnode heibio heb i'r drws agor a hynny o'dd yn fwyaf dantlyd pan na welwn i ole ddydd.

### Dim clem 'da nhw

Y bwriad wedd ca'l bwti deg ar hugen i weithio'n ddeuoedd am yn ail i dynnu neu hwpo am getyn ar y tro er mwyn fy symud rhyw dair milltir bob dydd. Falle bydde ishe mwy ar dyle serth. Ond diaich chi, d'odd dim deg ar hugain o wirfoddolwyr ar ga'l. Ie, gwirfoddolwyr oedden nhw heb unrhyw brofiad o waith corfforol. Do'dd dim clem 'da nhw shwd wedd cydio mewn rhaff. Wên nhw eriôd wedi clymu llwyth o wair rhydd fentra i. Dim wedi clymu lasys sgidie rhai ohonyn nhw heb sôn am wneud cwlwm tei. Os bysen nhw'n ffermwyr neu'n aelode o glybie ffermwyr ifenc byse'n rhywbeth. Ond wedd rheiny i gyd yn gweithio, glei.

Wel, yffach gols, wên nhw'n ca'l trafferth i fy symud tair troedfedd trw'r bore heb sôn am deithio tair milltir cyn iddi dywyllu. Wedd yr Almaenwyr wedyn yn darlledu'n fyw bob awr i ddangos i'r miloedd o Jyrmans fel oedden ni fod i fyta'r milltiroedd ar hyd yr hyn wedd y gohebydd yn ei alw'n 'dirwedd prydferthaf Ewrop' mae'n debyg. Ond y drafferth o'dd mai'r un cefndir o'dd i'w weld ymhob telediad ar aelwydydd yr Almaen.

A hynny er ymdrechion y criw camera i helpu gyda'r symud rhwng pob telediad er mwyn ceisio cyfiawnhau'r gost o'u hanfon i gofnodi'r digwyddiad mae'n siŵr. Mae'n rhaid eu bod yn holi eu hunen yn dawel bach 'shwd yffach oedden ni wedi ennill y rhyfel?' â phawb mor ddi-glem yn fy symud. Fe roeson nhw'r gore iddi amser cinio a welon ni mo'n nhw fyth wedyn. Gawson nhw ddigon o 'dirwedd prydferthaf Ewrop'.

### Dwylo'n dolurio

A dweud y gwir fe roes y rhan fwyaf o'r 'gwirfoddolwyr' y gore iddi amser cinio 'fyd. Wên nhw wedi ca'l eu cryse t. Wedd eu dwylo meddal yn dolurio er eu bod yn gwisgo menig. Do'dd dim nerth ar ôl yn y coese. Yn fwy na hynny wên nhw wedi ca'l llond bola a mwy o fyrgers a diodydd ysgafn o bob math am ddim. Wedd cigydd o Hwlffordd wedi'i gyflogi i'n dilyn pob dydd i fwydo'r criw ti'n gweld. Wedd hi'n rhyfedd faint o'r bois benderfynodd fod 'da nhw apwyntiad doctor, apwyntiad deintydd, apwyntiad llyged, apwyntiad ciropodydd, apwyntiad banc neu hyd yn oed angladde i'w mynychu yn y p'nawn. (I barhau) – *Shani Las*

# Gogoniant Natur

Camera Tommy Evans wedi dal y dwrgi yn codi i'r wyneb yn Afon Teifi.



# Ymunwch â CLWB CLEBRAN




Rhian White o Langynin enillodd wobr o £100 y Gronfa Asedion Cymunedol ym mis Hydref ac fe enillodd £30 arall ym mis Tachwedd – llongyfarchiadau Rhian!

Dyma gronfa newydd CLWB CLEBRAN i ymuno â hi. Darllenwch y manylion ar dudalen dau eto a llenwch y ffurflen ymaelodi a'i dychwelyd.

Gobeithir codi'r wobr misol i £200 o gael 100 o aelodau. Gall archeb banc fod yn anrheg Nadolig sbesial i rhywun a beth am dalu am y flwyddyn gyfan sef £60.

Eisoes teilyngodd CLEBRAN grant Loteri Cenedlaethol o £7,000. Ond mae rhaid gwario'r arian hwnnw ar brosiectau penodol ac nid ei ddefnyddio fel cymorth i dalu costau'r papur.

# Daliwch sylw – whiliwch am hen lunie



*Pwy all y rhocesi uchod fod a'r gwryw yn eu canol?*

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn ryfedd ac ansicr i ni i gyd. Roedd Prosiect Cymdogaeth Werin Preseli wedi gobeithio cynnal llawer o ddigwyddiadau cymunedol, gweithgareddau ac arddangosfeydd wyneb yn wyneb i ddathlu hanes anhygoel ardal Preseli.

Ond nid yw'r cyfan ar goll! Y Gaeaf hwn rydym yn cynnal arddangosfa rithwir wedi'i churadu gan y gymuned dros gyfrwng Ffesbwc. Bob wythnos, bydd ysgogiad neu thema i'ch rhoi ar y trywydd cywir. Byddem wrth ein bodd yn eich gweld yn rhannu ffotograffau a fideos hen a chyfoes o fywyd yn rhanbarth Preseli. Bydd croeso hefyd i atgofion a straeon!

Gweler y poster am ddolen i'r Grŵp Ffesbwc lle cynhelir yr arddangosfa. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â sophie.jenkins@planed.org.uk.

*Siop Siân*
CRYMYCH
✆ 01239 831230
Llyfrau, Cardiau, Casetiau, CD's a Fideos, Crefftau a Gemwaith o Gymru
**Tocynnau Anrheg** ar gael

**WYN VAUGHAN**
**PEIRIANNYDD GWAITH PLYMIO/ GWRES CANOLOG**
DANDDERWEN
CWM PLYSGOG
CILGERRAN. SA43 9TA
**01239 615587**
**07968 870115**

Cware Olew
**Trefigin**
TYWOD GRAEAN CERRIG BLOCS
TANWYDD TŶ DISEL FFERM DISEL LIWBOLEW
(01239) 881282
ABERTEIFI. SA43 3BL
(01239) 881630




Ein Cymdogaeth Werin Preseli Heartlands Communities

CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

PLANED

arwain sir benfro LEADER Pembrokeshire

*Ymborth nobl i bobl y byd – yn y gwraidd*
*Dan ei gwrysg mae'n golud;*
*Ffein y bo, ffon y bywyd,*
*Wele rodd sy'n ail i'r yd.*
Waldo

**Os am DATO BLASUS TATO GLAN, DIM WAST Cwdyn 12.5k, rhwydd i'w drafod a chadw, Sdim ond un lle!**

BRIAN LLEWELYN a'i ferched
traditional country stores

**www.country-stores.com**
**01239 891618 / 891376**

## CELIA VLISMAS OPTEGYDD

Am wasanaeth personol a gofal proffesiynol ar gyfer y teulu cyfan

STRYD FAWR CRYMYCH, SA41 3QG
Ffôn a Ffacs: 01239 831555

NGHASTELL NEWYDD EMLYN
3 SGWÂR Y FARCHNAD, SA38 9AQ
Ffôn a Ffacs: 01239 711888

CANOLFAN IECHYD ARBERTH, SA67 7AA
Ffôn a Ffacs: 01834 861373

## MIDWAY MOTORS

Shwmae Pawb. Gobeithio eich bod chi i gyd yn cadw'n iach. Dyma ychydig o wyliau sydd gennym ar ôl eleni.

**Teithiau 2020**

12/12/20 - Goleuadau nadolig yn Blenheim Palace - £150

30/12/20 - Gwyliau blwyddyn newydd yn Southport - £365

**Teithiau 2021**

15/1/21 - Gwyliau Midway yn Cemyw - 3 Noson - £240

11/2/21 - Cymru v Alban Rygbi 6 Gwlad - £299

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan

www.midwaymotors.wales

Paratowch ar gyfer ein pamffled newydd 2021 a fydd allan yn fuan.

Rhif Ffon - 01239 831 267

SOLAR PANEL SPECIALISTS
Preseli
WINDOW CLEANING

**Golchi ffenestri**
**Golchi gwteri**
**Clirio mwswm**
**Golchi tŷ**
**Golchi â dŵr dan wasgedd**
*(Pressure Washing)*

**Yswiriant llawn**
**Ffoniwch am bris cystadleuol**
**07811 323 842**

'Preseli window cleaning'
ar Facebook.
Ebost: iwanward@hotmail.co.uk

## *D. E. Phillips*
***a'i Feibion***

Tan-y-Bryn, Glandwr

*Trydanwyr*

Siop Radio a Theledu
**CRYMYCH**

Setiau ar werth

Ffôn : (01994) 419361
(01239) 831589

# J. D. JONES a'i GWMNI
## CYFRIFWYR

TŶ AUCKLAND, CRYMYCH
FFôn: (01239) 831493

71 Y Stryd Fawr, Abergwaun
Ffôn: (01348) 873237

# MENTER IAITH AR WAITH

### Hwyl yr Hydref

Rydym fel arfer yn trefnu digwyddiad blynyddol 'Hwyl yr Hydref', ond eleni bu rhaid meddwl ychydig yn wahanol a threfnu digwyddiad rhithiol. Ar ddydd Mawrth, 27ain o Hydref trefnwyd diwrnod llawn hwyl ar dudalen facebook Cica Corona. Cawsom lu o weithgareddau Hydrefol, clipiau fidio a syniadau amrywiol ar gyfer y teulu oll i fynd ati i wneud yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod tân...Helfa Drysor Hydrefol, chwilair, syniadau crefft, sesiwn stori, sesiwn ganu, creu bwyd adar, hefyd clip fidio gan Adam yn yr ardd.

Braf oedd cael derbyn lluniau yn ystod y dydd o blant yr ardal yn cymryd rhan a rhannu eu campweithiau gyda ni. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus gyda nifer dda o blant a theuluoedd yn ymweld ag yn ymgysylltu gyda'r gweithgareddau ar-lein. Cofiwch wylio allan am fwy o ddigwyddiadau rhithiol gan y Fenter yn y dyfodol agos.

### Parti Ysbrydion




Cafwyd parti Calan Gaeaf dros Zoom ar ddydd Gwener. Hydref 30 gyda 18 o blant wedi ymuno gyda ni. Cafwyd Disgo; cwisys a gemau hwyl yn ystod y sesiwn gyda phob un wedi'u gwisgo mewn amryw o wisgoedd ffansi ar y thema Calan Gaeaf. Diolch I bawb wnaeth ddod i gefnogi. Bydd Parti tebyg iawn yn digwydd unwaith eto ond ar y thema Nadoligaidd tro yma ar ddydd Mawrth 22ain o Ragfyr. Dyma boster o'r digwyddiad isod:

### Ar eich Marciau

Daeth deg tîm at ei gilydd yn rhithiol ddechrau mis Tachwedd i gystadlu mewn cwis 'Ar eich Marciau'. Sefydlwyd 'Ar Eich Marciau' gan Cered: Menter Iaith Ceredigion a Cheredigion Actif yn 2019 fel cystadleuaeth gwis Cymraeg ei iaith ar gyfer clybiau chwaraeon y sir.

Gan nad oedd modd gwahodd clybiau chwaraeon i greu timau i gystadlu wyneb yn wyneb mewn un lleoliad eleni, penderfynwyd addasu'r gystadleuaeth i fod yn un rhithiol ar Zoom. Yn ogystal â newid ffurf y cwis, ehangwyd y gystadleuaeth i unigolion, teuluoedd ac aelwydydd yn hytrach na chlybiau chwaraeon yn unig ac fe ehangwyd y cwis yn ddaearyddol trwy gynnal y cwis ar y cyd rhwng Mentrau Iaith Ceredigion a Sir Benfro.

Ers dechrau'r Cyfnod Clo mae'r ddwy Fenter Iaith wedi bod yn cydweithio ar Cica Corona, sef cynllun poblogaidd i ddod ag adloniant digidol cyfrwng Cymraeg yn ddyddiol ar Facebook i bobl y ddwy sir.

Gwnaeth deg tîm gystadlu ar y noson gyda'r timau yn hanu o Geredigion, Sir Benfro a thu hwnt. Ar ôl dwy awr o hwyl a chrafu pen, Arwel Jones a'i deulu yn Nhregaron ddaeth i'r brig. Llongyfarchiadau iddynt.

Ebost:ymholiad@mentersirbenfro.com
Ffôn: 01239 831129 01348 873700




YMUNWCH GYDA NI AR ZOOM AR GYFER

**CAROLAU CICA CORONA!**

6 O'R GLOCH NOS SUL RHAGFYR 13EG

COFRESTRWCH NAWR I YMUNO YN EIN NOSON GAROLAU RHITHIOL

EBOSTIWCH STEFF NEU DAF AR:
STEFFAN.REES@CEREDIGION.GOV.UK
DAFYDD@MENTERSIRBENFRO.COM

GALW PERFFORMWYR CEREDIGION A SIR BENFRO

**CAROLAU CICA CORONA!**

DERE I FOD YN RHAN O SIOE ARBENNIG
AM 6 O'R GLOCH NOS SUL RHAGFYR 13EG

CAM 1:
COFRESTRA TRWY EBOSTIO DAFYDD@MENTERSIRBENFRO.COM
NEU STEFFAN.REES@CEREDIGION.GOV.UK
GYDA DY ENW, OED A BETH TI AM BERFFORMIO

CAM 2:
GWNA FIDEO O DY HUN YN CANU
NEU CHWARAE DY HOFF GAROL GYMRAEG.

CAM 3:
YMUNA YN Y NOSON I RANNU DY FIDEO A MWYNHAU GWYLIO FIDEOS POBL ERAILL YN FYW AR ZOOM. BYDD Y SIOE YNA'N CAEL EI RANNU AR FACEBOOK CICA CORONA

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi gyd wrth staff y Fenter!**

# Y CAPELI A'R EGLWYSI

## Mynd am dro ar hyd y feidiroedd

### "Pwy a all gael digon o syllu ar ei ogoniant ef?" (Ecclesiasticus 42:25)

Dwi 'di bod yn cerdded ar hyd heolydd a feidiroedd fy milltir sgwâr ers misoedd lawer erbyn hyn. Dwi'n hoff o gerdded ond pe bai rhywun wedi dweud wrtha i cyn y cau mawr y byddwn yn mwynhau cerdded mewn cylchoedd o fewn tafliad carreg i'r tŷ oherwydd cyfyngiadau COVID 19 byddwn wedi ei wfftio. Ond os am ymarfer corff ac awyr iach doedd 'da fi ddim dewis.

Weithiau mae cael eich gorfodi i newid yn beth da. Doedd dim hawl neidio yn y car a gyrru am filltiroedd lawer i'r traeth neu'r mynydd agosaf er mwyn cael mwynhau'r golygfeydd. Doedd dim modd stopio am ddisied mewn caffi ar y ffordd adref. Boed law neu hindda byddwn yn camu o'r tŷ a gydag amser fe ddes i fwynhau'r arlwy rhyfeddol oedd i'w weld ym môn y cloddiau.

Sawdl y Fuwch

Fe sylwais ar hen furddun oedd wedi ei gwato gan ddinad ac iorwg, fe ddes i werthfawrogi crefftwaith y gwerinwyr a gododd y cloddiau cywrain ac fe ddechreuais oedi a syllu ar risgl hen dderwen ger croes Geltaidd ar ben feidr fferm gyfagos. Sylwais fod pistyll yn codi nid nepell o'r tŷ pan oedd hi'n bwrw glaw'n drwm. Yn olaf, fe ddechreuais ddysgu enwau rhai o'r blodau a'r creaduriaid des i ar eu traws – Sawdl y Fuwch, Garlleg yr Arth, Llysiau'r Drindod, Llygad Llo Mawr, Llin y Tylwyth Teg, Boneddiges y Wig, Glöyn Trilliw Bach a Brith y Coed.

Bu rhaid newid y drefn ar ddydd Sul. Dim cwrdd am 10.30 'pronto'. Dim ishte'n y sedd arferol, gweddi, codi, emyn, ishte, gweddi, codi, emyn, darlleniad, casgliad, codi, emyn, pregeth, codi, emyn, gweddi, getre! Da'th hi'n drefn newydd ar y Sul. Codi'n weddol, boed law neu hindda a mas am dro 'da' r ci, gan wledda ar arlwy rhyfeddol Duw ym môn y clawdd. Cyrraedd getre, matryd os oedd y dillad yn stegetsh, dished o de. Yna, ishte lawr a mwynhau oedfa neu gyfraniad dros y we neu ar y teledu.

Pili pala

Wedi fy ysgogi gan ambell i gyflwyniad gallwn droi at fy Meibl a darllen ymhellach gan ddilyn trywydd y cyfraniadau lu oedd yn cyrraedd y 'rwm ffrynt' o bob rhan o Gymru. Roedd cynifer o negeseuon arbennig ac amrywiol – fel y blodau a'r pili pala ym môn y clawdd – gan aelodau o deulu'r ffydd. Roedd yn chwa o awyr iach o wybod bod cynifer am rannu o'u ffydd a'u profiad a thrwy hynny fy nghysuro a'm herio.

O fedru rhannu neges y Gwaredwr gyda chyd Gristnogion Cymru benbaladr codwyd fy ysbryd a bu'n fodd i fy nghynorthwyo i gadw persbectif, cadw'r ofnau draw a lleddfu'r gofid am deulu a gwaith. Dyna beth yw hanfod ffydd – cynnig gobaith am y presennol a'r dyfodol, cynnig cynhaliaeth a phwrpas pan all pethau bod yn ddiflas a rhyfeddu a chanmol pan ma' popeth yn iawn. Yn ystod y 'clo mawr' fe wnaeth Duw fy nghynorthwyo i ryfeddu ar Ei greadigaeth trwy fy arwain ar hyd heolydd a feidiroedd fy milltir sgwâr a chynigiodd gyfle i fi gael rhannu o'i air anhygoel o gludwch fy nghartref.

Mynd am dro

Yn ddiweddar, fe ail ddechreuodd gwasanaethau'r capel. Rhyfedd o deimlad oedd cerdded nôl drwy'r drysau mawr i horest o adeilad Fictorianaidd. Roedd pawb ar wasgar ac yn syllu ar ei gilydd o bellter. Braf oedd cael cwrdd â chydnabod a chael gwrando ar y Gair, ond mae fy Sul wedi newid. Mae'n rhyfedd fel mae Duw yn gweithio. Wedi dychwelyd o'r oedfa, er gwaetha'r glaw a'r gwynt, rhaid oedd mynd am dro. – Cristnogaeth 21 Hydref 18 2020

## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda – Taith Gerdded 2020

Yn dilyn taith gerdded flynyddol y Gymdeithas, casglwyd dros £3000 o bunnoedd sy'n rhyfeddol o ystyried cyfyngiade Covid19. Diolch i bawb fu'n cerdded ar ran capeli'r Gymdeithas, i bawb wnaeth gyfrannu, i Rosemarie Davies am gwblhau'r gwaith gweinyddol ac i Kevin Bowen am dderbyn y cyfraniade.



Rosemarie Davies ac Eurfyl Lewis, swyddogion y Gymdeithas, yn cyflwyno siec o £1500 i Gareth Owens, Get The Boys a Lift. Cyflwynwyd siec o £1500 i Dr Richard Davies, Meddygfa Taf, Hendy Gwyn hefyd. Gweler cyfraniade'r capeli isod :-

Bethel, Llanddewi – £100
Bethel, Mynachlog-ddu – £0
Blaenconin, Llandysilio – £200
Brynmyrnach, Hermon – £120
Calfaria, Login – £300
Cefnypant – £100
Cwm Miles – £100
Ffynnon, Llanddewi – £50
Glandwr – £75
Hebron – £100
Henllan Amgoed – £300
Llwynyrhwrdd, Tegryn – £100
Moriah, Blaenwaun – £285
Nasareth, Hendygwyn – £200
Nebo, Efail-wen – £367
Pisgah, Llandysilio – £150
Ramoth, Cwmfelin Mynach – £335
Rhydyceisiaid – £60
Rhydwilym – £210
Tabernacl, Hendygwyn – £180
Trinity, Llanboidy – £50

**Cyfanswm** – £3382

## Ebenezer Dyfed



Gan gadw at reolau pellter cymdeithasol, cynhaliodd gwragedd yr eglwys "Oedfa Weddi Bedyddwyr y Byd" yn yr awyr agored. Cymrwyd rhan gan Ray Thomas, Olive James, Nia George, Sioned Phillips, Janet Edwards a Beti Thomas a oedd hefyd wedi trefnu'r oedfa.

## Cau Castell Caeriw a Chastell Henllys dros dro



*Castell Caeriw gyda'r nos*

Mae Castell Caeriw a Phentref Oes Haearn Castell Henllys wedi cau eu drysau i'r cyhoedd tan 2021 o ganlyniad i effaith covid-19.

Er y bydd y ddau safle Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ar gau i ymwelwyr, bydd ysgolion a grwpiau'n dal yn gallu archebu ymweliadau ymlaen llaw.

Bydd Oriel a Chanolfan Ymwelwyr Oriel y Parc yn parhau ar agor i bawb, gydag amrywiol arddangosfeydd yn cael eu cynnal a siopau dros dro ar agor hyd at y Nadolig.

Dywedodd James Parkin, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ymwelwyr, Cymunedol a Chefn Gwlad Awdurdod y Parc Cenedlaethol: "Bu'n rhaid cymryd y penderfyniad anodd i gau'r ddau safle hyn fel mesur dros dro i reoli costau'r Awdurdod o ganlyniad i effaith y pandemig Coronafeirws".

## Bedyddwyr Cylch y Frenni

Ni chynhelir oedfaon yn eglwysi'r Cylch am y tro, oherwydd sefyllfa bresennol y feirws felltigedig, ond gallwch ddilyn myfyrdodau ar-lein yn wythnosol, wedi'u cyflwyno gan y Parchg Rhosier Morgan.

Gobeithio bydd hi'n ddiogel inni gyd-gyfarfod wyneb yn wyneb eto, cyn hir, ond yn y cyfamser, cadwch yn iach a diogel, cofiwch wenu a chadwch y ffydd.

## Clwb Ffermwyr Ifanc Hermon

Llongyfarchiade i Is-Gadeirydd y Clwb, Gwyndaf Lewis ar ennill Gwobr Cefnogwr Cymunedol y Flwyddyn gan Ffederasiwn Cenedlaethol y Clybiau Ffermwyr Ifanc (NFYFC) am ei ymdrechion i godi bron i £40,000 i'r Uned ICU yng Nghaerfyrddin.

Wnaeth rhai o'n haelodau ni gystadlu yn Ffair Aeaf y Sir ym Maes y Sioe, Hwlffordd. 6ed fel Clwb a llongyfarchiade i Betsan Williams ar ennill Carcas Oen a Sara Peregrine ar ddod yn 3ydd yn y Carcas Eidion.

Yn y mis diwethaf, ni wedi bod yn cynnal Scavenger Hunt ar-lein a noson Sinema Ceir. Ni ar agor i aelodau newydd a chyn-aelodau i ymuno â ni ar Zoom cyn bod hi'n ddiogel i ni gwrdd wyneb-yn-wyneb.

Ni'n mynd i drefnu Ras Hwyiaid ar ddiwedd mis Rhagfyr (fydd yn fyw ar Facebook). Mae'r hwyiaid ar werth am £1 yr un – cysylltwch â'r Clwb ar Facebook, neu Ben Williams ar 07958544133.

**GARETH DAVIES ADEILADWR**

Gwaith Adeiladu Newydd,
Estyniadau ac Atgyweiriadau,
Gosod Ffenestri a Drysau,
Gosod Ceginau – Gosod Teils,
Ystafelloedd Gwydr, Ffasgau,
Bondoeau a Chafnau,
Patios, Llwybrau Cerdded, Rhodfeydd,
Lloriau – Plastro a Sgimio

Gwasanaeth cyfeillgar a dibynadwy!
**Ffoniwch Gareth ar**
**07812 077556 / (01239) 841235**

**Siop Wledig Draddodiadol.**

Llysiau a Ffrwythau ffres.
Wyau'r maes.
Cwrw traddodiadol.
Llaeth Organic.
Halen Mon. Mel lleol.
Cacennau Rhydwen.

BRIAN LLEWELYN a'i ferched
traditional country stores

Crefftau o Gymru.
Basgedi Helyg,
Clustogau,
Gwaith Llechi,
Anrhegion unigryw.
Cardiau Cymreig.



Dillad Glaw moethus, Wellingtons traddodiadol neu rhai lledr.
Offer gardd a fferm!
Glo a Choed tan, Nwy Calor.
Galwch heibio! Croeso cynnes i bawb.
Ar agor 7 diwrnod yr wythnos.
01239 891618 / 891376
www.country-stores.com hefyd ar Facebook!

# *Bysiau Cwm Taf*

## *Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



**CEFNOGWYR BALCH O ELUSENNAU CANSER**

### Teithiau 2020

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mercher 30 Rhagfyr | DATHLU'R FLWYDDYN NEWYDD YN BOURNEMOUTH | £395 | 4 Diwrnod |

### Teithiau 2021

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sadwrn 9fed Ionawr | SIOPA'R FLWYDDYN NEWYDD YM MRYSTE A CHAERDYDD | £99 | 2 Ddiwrnod |
| Gwener 15fed Ionawr | PENWYTHNOS ADUNIAD YN TORQUAY | £195 | 4 Diwrnod |
| Gwener 22ain Ionawr | PENWYTHNOS ARBENNIG YN PAIGNTON | £195 | 4 Diwrnod |
| Gwener 29ain Ionawr | PENWYTHNOS YN LLUNDAIN | £199 | 3 Diwrnod |
| Iau 11eg Chwefror | RYGBI CHWE GWLAD - YR ALBAN V CYMRU | £310 | 4 Diwrnod |
| Mawrth 16eg Chwefror | DISNEYLAND PARIS (HANNER TYMOR) | Ffoniwch | 4 Diwrnod |
| Llun 22ain Chwefror | WESTON-SUPER-MARE | £285 | 5 Diwrnod |
| Gwener 26ain Chwefror | GWYLIAU BACH CYSURUS YN BABBACOMBE | £190 | 4 Diwrnod |
| Gwener 5ed Mawrth | PENWYTHNOS YNG NGWESTY'R MOORLAND | £265 | 4 Diwrnod |
| Gwener 12fed Mawrth | Caernarfon - Clive a'i westeion yn diddanu | £210 | 3 Diwrnod |
| Llun 15fed Mawrth | Gwyliau Bach Cysurus yn Street | £255 | 5 Diwrnod |
| Sul 21ain Mawrth | Waldorf - Llundain | £175 | 2 Ddiwrnod |
| Gwener 26ain Mawrth | Penwythnos 'Cabaret' yn Torquay | £255 | 4 Diwrnod |
| Llun 5ed Ebrill | Mordaith ffug Llandudno | £395 | 5 Diwrnod |
| Iau 8fed Ebrill | Melinau Gwynt a Blodau'r Iseldiroedd | £485 | 5 Diwrnod |




### Teithiau Undydd 2020

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth 8 Rhagfyr | SIOPA NADOLIG - ABERTAWE | £10.00 |
| Mawrth 15 Rhagfyr | SIOPA NADOLIG - CAERDYDD | £14.00 |
| Mawrth 26ain Ionawr | Trago Mills - Merthyr Tudful | £15.00 |
| Mawrth 2il Chwefror | Siopa yn Cribbs Causeway | £18.00 |
| Mawrth 16eg Chwefror | Marchnad Abertawe | £10.00 |
| Mawrth 16eg Mawrth | McArthur Glen - Pen-y-Bont ar Ogwr | £14.00 |
| Mawrth 30ain Mawrth | Parc manwerthu Trostre, Llanelli | £10.00 |
| Mercher 14eg Ebrill | Rheilffordd Gwili a Marchnad Caerfyrddin | £16.00 |
| Mawrth 27ain Ebrill | Profiad y Bathdy Brenhinol a Phorthcawl | £25.00 |
| Mawrth 11eg Mai | Marchnad Y Fenni | £15.00 |
| Dyddiad i'w gadarnhau | Aberhonddu a'r Rheilffordd Fynyddig (Tocynnau yn y pris) | £28.00 |
| Mawrth 25ain Mai | Gerddi Clyne a'r Mwmbwls | £10.00 |
| Mercher 9fed Mehefin | Sain Ffagan/Caerdydd/Bae Caerdydd | £14.00 |

**NIFER CYFYNGEDIG O LEFYDD CODI – Ffoniwch am fanylion**

***Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau.***

***Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion.***

***Gwyliau, Theatrau & Phenwythnosau – Teithiau hir a byr.***

***Ffoniwch a gadewch y gweddill i ni!***

**www.tafvalleycoaches.co.uk**

**Ffôn : 01994 240908**

**Os am deithiau hwylus braf, dewch da ni ar Fws Cwm Taf.**

# CWARE PANTGWYN

Tywod Adeiladu ~ Tywod Concrid ~ Tywod Fferm

Cerrig ~ Cerrig Lliw Addurniadol ~ Grafel

TYWOD GWELY ANIFEILIAID YN SYTH
O'R CHWAREL I'R FFERM

**www.cwarepantgwynquarry.co.uk**

**Ffôn: 01239 881246** **Symudol: 07900 160800**



## Cofiwch am yr hawliau sydd gennych chi gyda sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru:




**#MAEGENIHAWL**

- Defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn
- Llythyrau ac e-bost yn y Gymraeg
- Gwefannau yn y Gymraeg
- Negeseuon Cyfryngau Cymdeithasol
- Arwyddion yn y Gymraeg
- Gwneud cais am swydd yn Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dyma rai o'r hawliau. Am restr lawn, ac union fanylion yr hawliau sydd gennych chi i ddefnyddio'r Gymraeg, ewch i comisiynyddygymraeg.cymru/maegenihawl

# Bidi'n cofio'r 1930au yn Hermon



*Yn y cefn o'r chwith; Mary Annie, Percy a Norman. John Davies a'i wraig, Elizabeth yn eistedd.*



*Bidi yn groten fach yng nghwmni ei thad*



*Disgyblion Ysgol Hermon yn y 1930au pan oedd rhieni Bidi, Norman a Linda yn athrawon – fedrwch chi eu henwi i gyd?*



*Siop Gwilym Bowen yng ngwaelod y pentref, y Lamb Inn yn y pen pellaf*

John Davies, fy nhad-cu, oedd trydydd prifathro Ysgol Hermon ond gan fod fy nau dad-cu a'r ddwy fam-gu wedi marw cyn i fi gael fy ngeni does dim cof personol gyda fi amdano. Rwy wedi dysgu peth wrth ddarllen llyfr gwych Maureen George am hanes yr ysgol. Mae hi wedi cynnwys detholion o lyfrau cofnodion yr ysgol o'r dechreuad. Roedd tipyn o fynd a dod yn y blynyddoedd cynnar. Y prifathro cyntaf oedd John Bowen a dilynwyd ef gan Robert Bryan a fu yno am dair blynedd. Rwy wedi darllen rhywle arall fod e wedi gadael oherwydd afiechyd a bod e wedi mynd gyda'i frawd i fyw yn yr Aifft.

**O Felin-foel**

Wedyn yn Nhachwedd 1883 daeth fy nhad-cu. Mae'r cofnodion yn dweud ei fod wedi bod yn dysgu yn Nhredegar. Ond bachgen o Felin-foel, ger Llanelli oedd e ac un peth a ddaeth e o'i ardal oedd tafodiaith Felin-foel. Hyd nawr mae llawer yno yn siarad yn y trydydd person a dyna fydde fy nhad yn defnyddio gyda fy Anti Nannie. Sdim gwahaniaeth taw menyw oedd hi ond 'Odi fe wedi bod yn y dre heddi?' fyddai'r cwestiwn.

Clywes i hefyd pan oedd e wedi rhoi stŵr, neu falle glatshen, i ryw fachgen fe fydde fe'n difaru ac yn gweud 'Dew e geith e rhwbeth gyda fi.' Roedd e yn gerddorol a ma' cloc gyda fi yma a gafodd yn 1905 fel anrheg am fod yn arweinydd y gân am ugain mlynedd. Dyw'r cloc ddim yn dweud mai o gapel Hermon y cafodd e, ond yno oedd e'n aelod er ei fod wedi ei gladdu ym mynwent Llwynyrhwrdd. Rwy wedi clywed hefyd fod ganddo fand yn y pentre, Fife and drum mae'n bosibl. Sgwn i a oes rhywun o ddarllenwyr Clebran wedi clywed gan dad-cu neu hen ddad-cu ryw sôn am hyn.

**Norman a Percy**

Oni bai am lyfr Maureen, fydde'n i ddim yn gwybod dyddiad ei farwolaeth ond mae'r cofnodion yn dweud fod yr ysgol wedi cau am wythnos yn Fehefin 1920 gan fod y prifathro wedi marw ar Fai 29ain. Dilynwyd e gan fy nhad ar ôl iddo fod yn brifathro ar ysgol Pantycaws. Yn ystod y rhyfel roedd fy nhad a'i frawd Percy wedi bod yn y fyddin. Roedd Norman, fy nhad, wedi bod yn Gallipoli a wedyn ar ôl cael 'enteric fever' a bod yn ysbyty yn Valetta, Malta daeth e adre tua 1916.

Mae'r llun ohonynt wedi'i dynnu siŵr o fod yn iard yr ysgol. A dweud y gwir yr un siwt sy gan fy nhad a Percy. Pan

ddaeth e adre roedd wedi colli pwyse a do'dd ei ddillad ddim yn ei ffitio. Felly cafodd fenthyg dillad fy nhad a'i osod yn rhan o'r llun wedyn. Bydde hi wedi bod yn neis i fedru fod wedi siarad â fy nhad-cu.

**Lampau paraffin**

I unrhywun o dan 70 oed sy'n darllen hwn mae'n siŵr eu bod yn meddwl mod i'n sôn am oes yr arth a'r blaidd. Yn amser y clo i ni wedi dibynnu ar y ffôn, neu'r teledu a'r cyfrifiadur, e-byst a falle zoom i gadw mewn cysylltiad â'r newyddion a gyda'n ffrindiau. Ond pryd hynny doedd dim ffôn yn ein tŷ ni na thrydan - dibynnu ar lampau paraffin am olau lawr llawr a channwyll i fynd i'r gwely.

Cefais fy ngeni yn nhŷ'r ysgol neu 'scŵl hows' fel 'roedd yn cael ei adnabod. Dim ond iet fach oedd rhwng iard yr ysgol a iard gefen y tŷ ond ar y pryd ro'n i rhy fyr i gyrraedd y latsh a dwy'n cofio gorwe' ar fy mola a phipo o dan y drws i weld y plant yn whare. Ambell waith bydde rhai o'r marched mawr, Mair Lleban neu Gwladys Gilwen efallai yn cymryd trueni drosta i ac yn fy 'smyglo' i mewn gyda nhw ar ddiwedd yr amser chwarae.

**Casglu loshin**

Mae parc gyferbyn â'r ysgol trwy glôs y Gurnos a ma' cof gyda fi am barti i'r plant yno. Mae'n siŵr fod bwyd a chwaraeon ond beth rwy'n gofio fwyaf yw fod rhywun â bocs mawr o loshin yn eu taflu mas a'r plant yn rhedeg i'w pigo lan. Yr achlysur oedd jiwbilî y brenin George V. Mewn rhyw ddwy flynedd roedd 'na barti arall yr un peth a loshin yn cael eu taflu, amser coroniad George VI.

O'n i yn meddwl fod rhywbeth fel na yn mynd i ddigwydd bob yn ail flwyddyn, ond beth ddaeth wrth gwrs oedd y rhyfel. Yn y ffos ar ochr y parc oedd lle roedd plant yr ysgol i fynd i gwato te'r boms yn dod. Dim ond unwaith rwy'n cofio mynd yno a hynny am bractis.

Yn yr amser tawel cyn y rhyfel doedd ddim llawer o geir ar y ffordd, felly oedd modd chware rhyw fath o dennis ar ganol y stryd. Yn y gaeaf bydde ni ambell waith yn arllwys dŵr lawr y ffordd fel bydde wedi rhewi erbyn y bore i ni gael sleidro lawr. Yn yr ysgol amser whare bydde gyda ni bob math o chware, cwato, trên bach, 'in and out the windows', 'I sent a letter to my love' ac yn y blaen, enwau Saesneg er taw Cymraeg oedd yr iaith. Gan mod i yn byw drws nesa i'r ysgol d'odd dim angen clocs arna i ond bydden i wedi dwli i gael rhai a chael clocsan lawr yr hewl fel 'roedd rhai o'r plant yn gwneud.



*Canol y pentref yn edrych lawr i gyfeiriad yr ysgol, Waunfach a Bryn Villa ar y chwith*



*Canol y pentref yn edrych i gyfeiriad Crymych, siop Brynawel ar y dde a'r rheiliau'n dynodi lleoliad Capel Brynmyrnach a Maes-yr-awel yr ochr arall*

**Crwydro bobman**

Ar ôl bennu'r ysgol bydden yn mynd lan i feidir bodo i gasglu llysiau duon bach, neu mefus gwyllt a chrwydro'r ffyrdd heb ofn i bob man am orie. Roedd bywyd cymdeithasol y pentre' yn dibynnu ar yr ysgol a'r ddau gapel, Hermon a Brynmyrnach. Dim ond dau berson yn y pentre' oedd ddim yn mynd i un o'r capeli, neu i'r eglwys yn Llanfyrnach.

Y diwrnodau pwysig yn y ddau oedd y Gymanfa Ganu a'r Gymanfa Bwnc. Pryd hynny roedd capeli'r ardal yn uno ac amser Llungwyn roedd pawb yn cael dillad newydd. O'n i'n meddwl fod pawb yn y byd yn cael hyn. Yr ysgol oedd y ganolfan i weithgareddau eraill, 'penny readings' a'r cyngherddau i groesawu bechgyn adre ar 'leave'.

Er bod Hermon yn bentref bach 'roedd pump siop yno, yn dechrau o waelod y pentref roedd Shop Tomi, Shop Hermon, Brynawel lle roedd hefyd y swyddfa bost, Shop Bess a Portland.

**Ifaciwis rhyfel**

Yn 1939 dechreuodd y rhyfel a'r flwyddyn ar ôl hynny daeth yr ifaciwis. Dosbarth o fechgyn o ysgol yn Hythe Kent ddaeth yma. Fy nhad oedd yn gyfrifol am ffeindio llety i'r bechgyn a roedd pawb yn fodlon derbyn plentyn ond neb eisiau'r athro felly i'n tŷ ni ddaeth Mrs Webster, yr athrawes. Menyw annwyl a ddaeth yn ffrind i ni. Doedd ddim syniad gyda nhw pwy fath o le oedd i'w ddisgwyl mae'n debyg pan gyrhaeddodd y trên o Gaerdydd a nhw yn falch o glywed fod Saesneg yn cael ei siarad.

Pan rwy'n clywed geiriau Waldo yn Y Tangnefeddwyr yn sôn am Abertawe'n fflam rwy'n cofio sefyll ar y wal o flaen ein tŷ a gweld yr awyr yn goch o fflamau Abertawe, rhyw 50 milltir bant.

Enw rhes fach o dai yn y pentre' yw Crook Road, dim achos bod dihuron yn byw yna ond mae'n siŵr o fod â chysylltiad â'r ffordd i Grymych. Y stori oedd bod yr hewl i fod ddod mas gyferbyn â chapel Antioch ond fod yr aelodau ddim am gael sgwâr a fydde'n denu bois afreolus i gasglu yno, felly yn y nos byddent yn symud y pyst oedd yn marco y gwaith am y diwrnod canlynol fel na fydde hyn yn digwydd.

Bidi Griffiths.

Rhaid diolch i Maureen George am ddarparu nifer o'r lluniau.

# Gŵyl Preseli 2020

## Miloedd yn gwylio a gwrando ar y darlledu rhithiol



*Cathryn Gwynn a Meirion Jones*

Yn dilyn dathliadau 50 mlynedd yr Ŵyl llynedd roedd disgwyl ymlaen at drefnu gŵyl gelfyddydol arall eleni ond yn anffodus oherwydd y pandemig fe ddaeth cwmwl du dros ein holl obeithion wrth i'r wlad barhau dan glo.

Rhwydd iawn fydde gohirio'r cyfan am flwyddyn ond wrth weld rhaglenni'r holl fudiadau, sefydliadau a chymdeithasau yn dod i ben penderfynwyd mynd ati i baratoi rhaglen ar gyfer y gymuned. Llwyddwyd i orchfygu nifer fawr o broblemau yn ystod y ffilmio gan gynnwys cadw pellter, recordio a golygu darlith ar ffôn symudol gan fod Dinas Caerdydd dan glo ac ymdopi gyda'r dechnoleg fodern. Fe recordiwyd Tecwyn Ifan yng Nghapel Horeb, Penrhyn-coch dau ddiwrnod yn unig cyn i'r clo ddisgyn ar Sir Ddinbych.

**Cathryn Gwynn**

Fe ddechreuwyd yr Ŵyl eleni gyda thrafodaeth ar waith Cathryn Gwynn o Gilgerran. Yn arwain y sgwrs oedd yr arlunydd Meirion Jones. Cafwyd cyfweliad arbennig wrth i Cathryn Gwynn sôn am ei gwaith celf cywrain oedd wedi ennill iddi ysgoloriaeth Miriam Briddon 2020. Cafwyd ymateb ysgubol ar y gwefannau cymdeithasol i'r cyfweliad gyda nifer yn nodi taw hon oedd un o'r cyfweliadau gorau iddynt glywed yng Ngŵyl Bro'r Preseli ac yn haeddu ei lle ar S4C!. Erbyn heddiw mae dros ddwy fil wedi gweld y cyfweliad. Diolch i Meirion Jones am arwain y drafodaeth mor gelfydd a diddorol.

Roedd yr arlwy gerddorol eleni yn cynnwys sesiwn yng nghwmni Tecwyn Ifan a Lowri Evans. Yn ystod y noson bu'r ddau yn cyflwyno nifer o ganeuon hen a newydd gan roi braslun o'u cefndir. Roedd yn hyfryd clywed cân newydd Tecwyn Ifan am 'Cofiwch Dryweryn' sy'n siŵr o dderbyn sylw pellach yn dilyn ail adeiladu'r wal eiconig tu allan i Lanrhystud.



*Lowri Evans a Tecwyn Ifan*

Braf hefyd oedd clywed un o ganeuon mwyaf adnabyddus Lowri 'Merch y Mynydd' yn cael ei chanu eto yn ogystal â chaneuon megis 'Cariad Mwyn' a 'Yr Un Hen Gi'.Unwaith eto cafwyd ymateb arbennig i'r noson ar y cyfryngau cymdeithasol gyda 5,100 yn gwylio'r fideo yn ystod yr wythnos gyntaf. Erbyn heddiw mae'r noson wedi denu sylw 14,244 o bobl!

Daeth naw tîm eleni i gystadlu yn Cwis Ŵes Glei. Cafwyd noson hynod o ddiddorol gyda chwestiynau amrywiol gan y cwisfeistr Marc Griffiths o Radio Cymru. Enillwyd Tarian Her Cware Trefigin eleni gan Tîm Y Frenni sef Llew ac Einir Thomas, Hywel W Jones a Kevin Davies. Llongyfarchiadau iddynt ar eu buddugoliaeth ac am eu haelioni wrth gyflwyno'r wobr o £50 i goffre'r Ŵyl. Diolch yn arbennig i Fenter Iaith Sir Benfro am drefnu'r noson ac i bob un o'r timau am ymuno yn yr hwyl.

**Jim Parcnest**

Traddodwyd Darlith yr Ŵyl eleni gan Y Prifardd T. James Jones a'i destun oedd Dan y Wenallt sef ei gyfieithiad o Under Milk Wood gan Dylan Thomas. Fe soniwyd yn ei ddarlith am nifer o gymeriadau o'r ardal a'i hoffter o'r fro hon cyn olrhain hanes a'r dylanwadau ar gymeriad Dylan Thomas pan oedd ar ei brifiant yng nghefn gwlad Ceredigion. Hyfryd hefyd oedd clywed Jim Jones yn darllen rhannau y gwahanol gymeriadau allan o'i gyfieithiad diweddaraf.



*Jim Parcnest*

Cadeiriwyd y noson yn gelfydd gan Rachel James, un o aelodau Fforddolion Dyfed a chafwyd trafodaeth eang am brofiadau Jim Parcnest wrth gyfieithu a'r perfformiadau cyntaf nôl yn y 60au. Traddodwyd y ddarlith hon ar 'Zoom' gyda deugain yn ymuno ar lein y noson

honno o bob rhan o Gymru ac rydym yn hynod o ddiolchgar i Wasanaeth Cymraeg i Oedolion Sir Benfro am noddi ac am reoli'r dechnoleg ar ein rhan.

**Mynwesu'r dechnoleg**

Er gwaetha'r Covid a'r cyfnod clo fe lwyddwyd i gynnal Gŵyl Bro'r Preseli unwaith eto eleni.

Mae'r Covid wedi ein gorfodi i feddwl am ffyrdd newydd o weithredu er mwyn cynnal ein hiaith a'n diwylliant.

Mae'r dechnoleg ar gael i bawb ac mae angen i ni ei mynwesu er budd ein cymunedau.

Derbyniwyd nifer o sylwadau dros y cyfnod. Un sylw sy'n sefyll allan oedd :

'Diolch am ddod a'r Ŵyl i ni eleni'.

Edrychwn ymlaen at eich cwmni blwyddyn nesaf pan fyddwn gobeithio nôl i ryw fath o normalrwydd. Os na, wel byddwn yn gwneud ein gorau i ddod â'r Ŵyl i chi.

Os hoffech weld rhai o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod yr Ŵyl gellir gweld y cyfan eto wrth fynd ar safle Gŵyl Bro Preseli ar Facebook a YouTube.

## Tîm Hoci Preseli 1965-66



Tîm hoci hŷn Ysgol y Preseli 1965-66. Odych chi'n eu nabod? Odych chi yn eu plith?

Wel, ma nhw te. O'r chwith, Miss Evans, Margaret Griffiths, Kathleen Mathias, Christine George, Yvonne Davies, Judith Holmes, Sheila Gibby, Clarice Morris, Ena Morris, Bronwen Phillips, Sandra Harding, Heather Davies. Ble ma nhw erbyn hyn? Ymfudodd Clarice i Awstralia. Fuodd yna haid o ferched pertach yn yr ysgol fyth wedyn?


**Mansel Davies a'i Fab Cyf.**

Arbenigwyr Teithiau Hir a Byr
Arbenigwyr Cludo Hylif
Cludiant gyda Llwytho a Dadlwytho Niwmatig
Llwythwr ar gyfer Cludiant Trwm
Masnachwyr Amaethyddol

Magnesium, Calch, Gweryd gyda gwasanaeth sgwaru.
Cyflenwyr Angenrheidiau Adeiladu,
Perchnogion Cware,
Cyfleusterau Storïo a Dosbarthu
Cyflenwyr Calch

PEMBROKESHIRE FREIGHT LTD

**Mansel Davies a'i Fab (Modurdai) Cyf.**

Trwsio Cerbydau Masnachol a Pharatoi ar gyfer MOT
Canolfan Tacograff Cydnabyddedig Adran Gludiant
Gwasanaeth Rhenti Cerbydau Masnachol a Threilers

VOLVO
PRIF GYFLENWR TRYCIAU

LLOYD'S REGISTER QUALITY ASSURANCE ISO9002

mannesmann automotive VDO Kienzle

LLANFYRNACH, SIR BENFRO. SA35 0BZ
FFÔN : (01239) 831631 FFACS : (01239) 831596

# CHWARAEON

## Bustych yn bugunad



*Ollie Evans yn penio'r bêl i gyfeiriad y rhwyd unwaith eto*

Er nad yw'r tymor pêl-droed cystadleuol wedi dechrau eto ar gyfer timau lleol mae bois Crymych eisoes wedi chwarae gemau cyfeillgar. Cafwyd buddugoliaeth o naw gôl i un yn erbyn Llandysul pan sgoriodd Ollie Evans chwech o'r goliau. Steff James a Gethin Evans hawliodd ddwy arall ac er mai ergydio i'w rwyd ei hun oedd y gôl arall yn swyddogol fe geisiodd Osian Wyn ei hawlio. Yn erbyn Dinbych-y-pysgod wedyn buddugoliaeth o ddwy gôl i un wrth i Siôn Vaughan a Mathew Williams rwydo ac yntau yn dathlu mewn steil. Gan fod sgwad mor fawr gan y Bustych y tymor hwn defnyddiwyd y gemau cyfeillgar i roi cyfle i dipyn o bawb i chwarae gan gynnwys llond llaw sydd wedi ymuno o glybiau eraill Cynghrair Costcutter Ceredigion.



## Lleucu yn serennu yng Nghaerloyw



Mae Lleucu George o'r Mot wedi hen sefydlu'i hun yn safle'r maswr yn nhîm merched Gloucester-Hartpury erbyn hyn â'i gallu i gicio o'r dwylo yn cael ei ganmol yn fawr a hithu yn ei thymor cyntaf gyda'r clwb yng Nghaerloyw. Yn wir, â hithau dim ond yn 20 oed mae'n rhoi pwysau ar yr hen ben, Elinor Snowsill, sy'n ddewis cyntaf yn y safle yn nhîm Cymru. Sdim dowt y caiff Lleucu gyfle i ychwanegu at ei chwe chap rhyngwladol pan ail-gydir yn y gemau. Bu'n chwarae ymhlith y blaenwyr am gyfnod ac yna fel canolwr gan ddangos pa mor amryddawn yw ei sgilie. A dyw hi ddim yn brin o gyd-chwraewyr rhyngwladol Cymru yn sgwad y clwb chwaith. Dal ati.

## Bois Preseli 1965-66

Odych chi yn y llun hwn? Ydych chi'n eu nabod? Tîm rygbi hŷn Ysgol y Preseli 1965-66.



Dyma nhw. O'r chwith, rhes gefen: Keith Lewis, Alwyn Davies, John Allison, Meredydd Williams / Colin Griffiths (Athro Chwaraeon), Brian Howells, Colin Harts, Gareth Owen, Brian Williams, Martin Thomas, Terry Reynolds / John Leighton, Lionel Holmes, Arwel Owen, Selwyn Williams (mewnwr Llanelli wedyn), Charles Howells, Michael Adams, David Llewellyn / Lyndon Thomas (maswr/ cefnwr Penybont-ar-ogwr wedyn), Gareth Thomas. Ble ma nhw nawr? Mae Selwyn yn gwisgo crys Cymru a chapan ysgolion Cymru ar ei ben. Dyma lun nodweddiadol ohono gyferbyn. Medrai'r crwt o Landysilio basio'r bêl hanner lled y cae yn ddiymdrech.